

Cefnogi a hybu'r Gymraeg

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**

Twitter: **@SeneddDGCh**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cefnogi a hybu'r Gymraeg

Gorffennaf 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor:



Bethan Sayed AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mick Antoniw AC
Llafur Cymru
Pontypridd



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Delyth Jewell AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Carwyn Jones AC
Llafur Cymru
Pen-y-bont ar Ogwr



David Melding AC
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Jayne Bryant AC
Siân Gwenllian AC
Neil Hamilton AC
Vikki Howells AC
Jane Hutt AC
Caroline Jones AC
Dai Lloyd AC
Rhianon Passmore AC
Jenny Rathbone AC

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Suzy Davies AC
Vikki Howells AC
Dai Lloyd AC

Cynnwys

Argymhellion	5
Crynodeb	7
Cyflwyniad	8
1. Cefndir	9
Dull gweithredu'r Pwyllgor o ran yr ymchwiliad.....	10
2. Mesur 2011	11
Deddfwriaeth dda ond nid perffaith	12
Hawliau i siaradwyr Cymraeg	13
3. Safonau'r Gymraeg o'u cymharu â Chynlluniau Iaith Gymraeg	16
Cynlluniau iaith Gymraeg.....	16
Cymhleth a biwrocraidaidd	17
Rhy gynnar i newid?.....	20
Gohirio cyflwyno rheoliadau pellach	21
4. Gweithdrefnau cwyno yn ymwneud â'r Gymraeg	24
5. Hybu'r Gymraeg	28
Y cyfrifoldeb dros hybu'r iaith.....	28
Cyfle i ehangu rôl y Comisiynydd	30
Safonau fel dull hybu	31
Creu corff hyd braich i hybu'r iaith	31
6. Y cyd-destun rhyngwladol	36
Atodiad A	39
Atodiad B	41
Atodiad C	47
Atodiad Ch	48

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor hwn, neu Bwyllgor cyfatebol yn y Chweched Cynulliad, yn ymrwmo i gynnal adolygiad llawn o'r safonau a'r dyletswyddau a osodir ar sefydliadau. Dylai'r adolygiad hwn hefyd gynnwys sut y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Dylai adolygiad yn y dyfodol hefyd gynnwys dadansoddiad o ddatblygiadau ac addasiadau a wneir o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, ynghyd ag effaith y newidiadau hynny..... Tudalen 15

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynigion yn y dyfodol i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn cael eu hategu gan y dystiolaeth ehangaf bosibl. Dylai hyn gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr, gan y byddai'n cael effaith sylfaenol ar hawliau siaradwyr Cymraeg. Dylai'r dystiolaeth ddangos sut y bydd newidiadau o'r fath yn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg..... Tudalen 15

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau i addasu safonau'r Gymraeg, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Gellid gwneud hyn drwy adolygu neu gyfuno safonau lluosog sydd â'r un nod neu ganlyniad. Ni ddylai unrhyw newidiadau a wneir gael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg..... Tudalen 23

Argymhelliad 5. Dim ond ar gyfer sectorau nad ydynt yn gweithredu safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd o dan Fesur 2011, megis cymdeithasau tai, cyfleustodau a chyrrff trafniadaeth, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau..... Tudalen 23

Argymhelliad 6. Rydym hefyd yn argymhell, lle bo hynny'n bosibl o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, bod Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ymchwilio i opsiynau i gyflymu'r broses o gyflwyno a gweithredu safonau mewn sectorau nad ydynt eisoes yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer y gwaith hwn..... Tudalen 23

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, ond dim ond ar ôl ystyried yr angen i adolygu'r safonau, gyflwyno'r set nesaf o reoliadau i reoleiddwyr yn y maes iechyd a chwmnïau dŵr..... Tudalen 23

Argymhelliad 8. Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau, lle y ceir hyblygrwydd o fewn y fframwaith deddfwriaethol, i gyflymu'r broses gwynion. Dylai hyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau

cyhoeddus, a sicrhau bod cwyn defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei datrys yn gyflym lle bynnag y bo modd..... Tudalen 27

Argymhelliad 9. Dylai Comisiynydd y Gymraeg adolygu ei weithdrefnau cwyno yn gyson o ran eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.
Tudalen 27

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru wahaniaethu'n glir rhwng ei rolau a'i chyfrifoldeb hi a rolau a chyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg, a dylid cyfathrebu hynny'n glir i randdeiliaid a'r cyhoedd..... Tudalen 35

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella statws a rôl Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'i chyfrifoldebau presennol, byddai'r Uned yn gyfrifol am ddwyn ynghyd arbenigedd allanol a fyddai'n rhoi trosolwg strategol o gynllunio ieithyddol yn genedlaethol. Dylai fod gan yr Uned hefyd rôl draws-lywodraethol ehangach, gan sicrhau bod trefniadau mewnol ar gyfer gweithredu'r strategaeth Gymraeg 2050 yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ar draws adrannau'r llywodraeth. Tudalen 35

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau hybu a wneir gan y Llywodraeth, y Comisiynydd neu asiantaethau allanol os yw am lwyddo yn ei nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Tudalen 35

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil yn y byd academiaidd i nodi bylchau mewn gwybodaeth, a datblygu rhaglenni ymchwil i gefnogi'r Strategaeth Gymraeg 2050.
Tudalen 38

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar fyrder sut y gall ddatblygu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i ddarparu'r arbenigedd sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a chynllunio ieithyddol yng Nghymru..... Tudalen 38

Crynodeb

- 1.** Penderfynodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gynnal ymchwiliad i'r ddeddfwriaeth a gynlluniwyd i gefnogi a hybu'r Gymraeg yn hydref 2018. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yr un pryd ag y cyhoeddwyd y cynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg, ond prif nod yr ymchwiliad oedd asesu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o ran ei effaith a'i weithredu.
- 2.** Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig deall sut mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gweithio i gefnogi'r iaith, cyn y gellid dweud a oes angen Bil newydd. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod fframwaith safonau'r Gymraeg yn gymhleth ac yn fiwrocraataidd, a chlywodd fod rhai o'r farn bod y system gwynion yn hirfaith ac yn feichus. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor hefyd fod y fframwaith presennol yn rhoi sicrwydd i sefydliadau, yn ogystal â hawliau cadarn i siaradwyr y Gymraeg.
- 3.** Serch hynny, i rai, wrth sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol, tynnwyd sylw ac adnoddau oddi wrth yr elfennau "mwy meddal" mewn cynllunio ieithyddol, yn benodol hybu'r iaith. Mae diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldeb, a cholli momentwm yn y blynyddoedd ers i Fesur 2011 gael ei gyflwyno yn peri pryder, a bydd angen mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

Cyflwyniad

4. Ym mis Medi 2018, dechreuodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gymryd tystiolaeth ar ei ymchwiliad - *Cefnogi a Hybu'r Gymraeg*.

5. Prif ddiben yr ymchwiliad oedd gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar yr elfennau a ganlyn:

- Gwaith craffu ar ôl deddfu ar *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* i asesu llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt.
- Asesu a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwnnw.
- Persbectif rhyngwladol - casglu tystiolaeth ar ddeddfwriaeth i warchod a hyrwyddo gwaith cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill.

6. Cynhaliodd y Pwyllgor 11 sesiwn dystiolaeth ar wahân gyda thystion, gan gynnwys sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Gweinidog), Eluned Morgan AC. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd, fel rhan o'i ymchwiliad, â Gwlad y Basg i glywed a dysgu am gynllunio a deddfwriaeth mewn perthynas ag ieithoedd lleiafrifol yn y rhanbarth hwn o Sbaen.

1. Cefndir

7. Ym mis Awst 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Phapur Gwyn - Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg*. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar gynnig ar gyfer Bil newydd y Gymraeg a fyddai'n newid agweddau ar y fframwaith deddfwriaethol presennol. Roedd y cynigion yn cynnwys newid y gweithdrefnau ar gyfer gosod safonau, diwygio'r broses gwyno, a dileu'r cyfyngiadau ar y meini prawf ar gyfer cynnwys corff o fewn y fframwaith safonau.

8. Roedd y cynigion hefyd yn awgrymu newid pwyslais tuag at hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith, ond gan gadw fframwaith rheoleiddio diwygiedig. Fodd bynnag, o bosibl mai'r cynnig mwyaf arwyddocaol, a'r mwyaf dadleuol yn y Papur Gwyn oedd y cynnig i sefydlu Comisiwn y Gymraeg. Byddai'r corff hwn yn disodli Comisiynydd y Gymraeg, a byddai ganddo gadeirydd a nifer o aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

9. Wrth gyhoeddi'r Papur Gwyn, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd, Alun Davies AC, wrth [BBC Cymru](#) fod Llywodraeth Cymru eisiau "canolbwytio o'r newydd ar y gwaith hybu, ynghyd â newid sut mae system y Safonau'n gweithio - i sicrhau ei bod yn rhoi hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon bosib".

10. Mewn ymateb i hynny, dywedodd Cymdeithas yr Iaith, sydd wedi bod yn galw am Ddeddf Iaith Gymraeg newydd ers peth amser, wrth y [Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#) eu bod mewn:

"sefyllfa ryfedd iawn ar hyn o bryd, lle rydym ni'n dweud 'dim diolch' i Ddeddf iaith newydd, achos, am y tro cyntaf, yn lle cael Deddf sy'n cael ei chryfhau pob cenhedlaeth fel rydym ni wedi'i weld yn 1942, 1967, 1993 a 2011... Mae gennym ni Lywodraeth yng Nghaerdydd sydd yn penderfynu, na, mae'n rhaid inni fynd am yn ôl. Dyna fel rydym ni'n gweld y Papur Gwyn yma. Felly, dyna pam rydym ni'n dweud, 'Na, peidiwch â deddfu am y tro'."

11. Roedd Dyfodol i'r Iaith (Dyfodol) ar y llaw arall yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys rhai o'r elfennau allweddol oedd ym Maniffesto Dyfodol - [Creu Dyfodol i'r Gymraeg](#), a gyhoeddwyd yn 2015. Roedd Dyfodol wedi galw am sefydlu Asiantaeth Iaith Genedlaethol, a fyddai'n gyfrifol am weithredu polisiau Llywodraeth Cymru, sydd ar hyn o bryd yn brif gyfrifoldeb i Uned Iaith Gymraeg ac Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Mae Dyfodol i'r Iaith, yn

ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, wedi bod yn feirniadol o'r fframwaith deddfwriaethol biwrocraidd a chymhleth a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth 2011, sydd wedi gwyro oddi wrth y gweithgaredd hyrwyddo angenrheidiol:

“Mae Dyfodol i'r Iaith wedi bod o'r farn ers rhai blynyddoedd bod pwyslais Mesur y Gymraeg yn rhy gul eu cwmpas. Yn naturiol, byddwn yn cytuno'n llwyr ag egwyddorion y Mesur, sef sefydlu statws y Gymraeg a gwarchod yr hawliau i'w defnyddio. Ond wrth i'r Comisiynydd Iaith ganolbwyntio ar statws a hawliau, ni roddwyd sylw digonol i hyrwyddo'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol cymunedol.”

12. Mae'r mater ynghylch y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a hybu'r iaith wedi bod yn destun dadl ac mae'n dal i fod yn destun dadl. Rhoddodd Llywodraeth Cymru y mater hwn wrth galon ei dogfen ymgynghori ar y **Papur Gwyn**, gan nodi:

“Mae'r Papur Gwyn yn gwneud cynigion ynghylch sut mae angen newid y gyfraith mewn perthynas â'r Gymraeg, yn ein barn ni. Yn benodol, drwy edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a sut y gellid ei wneud yn well, credwn fod angen inni edrych eto ar y gwahanol bolisiau rydym yn eu gweithredu. Mae hyn yn golygu ystyried y dyletswyddau rydym yn eu gosod ar gyffwrdd cyhoeddus a'r trefniadau presennol ar gyfer gosod a gorfodi Safonau'r Gymraeg, a'r holl ffyrdd gwahanol rydym yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.”

13. Ei hamcanion allweddol yn ei Phapur Gwyn oedd:

- taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a rheoleiddio dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg a;
- lleihau biwrocraetiaeth a sicrhau gwerth am arian.

Dull gweithredu'r Pwyllgor o ran yr ymchwiliad

14. Er gwaethaf cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg, roedd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu o'r farn, er mwyn edrych ymlaen, ei bod yn bwysig edrych yn ôl, yn anad dim. Dechreuodd y Pwyllgor ar ei waith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 20 Medi 2018. Ei dyst cyntaf oedd Alun Ffred Jones, y cyn Weinidog Treftadaeth a oedd yn gyfrifol am hynt y Mesur.

2. Mesur 2011

15. Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur 2011) yn garreg filltir bwysig yn hanes yr iaith Gymraeg. Roedd yn benllanw 70 mlynedd o ddatblygiadau deddfwriaethol a darpariaethau a oedd wedi cynnig rhai amddiffyniadau o ran hawliau siaradwyr Cymraeg. O'r darpariaethau deddfwriaethol yn Neddf Llysoedd Cymru 1942 i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ystyriwyd bod pob Deddf wedi adeiladu ar yr un flaenorol. Fodd bynnag, datganodd Mesur 2011, am y tro cyntaf, statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Rhoddodd hawliau nad oeddent yn bodoli o'r blaen i siaradwyr Cymraeg, gan geisio rhoi eglurder i gyrff a defnyddwyr gwasanaethau ynghylch y disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.

16. Roedd statws swyddogol yr iaith yn "bwysig iawn yn symbolaidd", yn ôl Cymdeithas yr Iaith, a nododd Emyr Lewis ei fod yn "hanesyddol bwysig":

"[Y] ffaith mai dyma ni, y Cymry, am y tro cyntaf, yn cymryd meddiant o'r iaith Gymraeg fel rhywbeth sydd yn greiddiol yn gyfansoddiadol i Gymru... Rydw i'n credu bod y datganiad o statws swyddogol i'r Gymraeg yn beth hanesyddol bwysig er mwyn setlo cwestiynau yn ymwneud â natur israddol y Gymraeg a'i siaradwyr yn hanesyddol yng Nghymru."

17. Dywedodd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg (Y Comisiynydd) ar y pryd, fod y Mesur yn ymdrin â'r diffygion yn Neddf 1993, a oedd ond wedi rhoi "[c]ydnabyddiaeth o gyfartaledd" yn flaenorol, heb ddarparu "datganiad clir ynglŷn â statws swyddogol". Nododd fod y Mesur, "yn delio â hynny".

18. Nododd y cyn Weinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones fodd bynnag, nad oedd statws ynddo'i hun yn ddigonol, a bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn berthnasol i fywydau pobl, a oedd yn gofyn am newid diwylliant:

"Holl bwrpas y ddeddfwriaeth oedd newid y ffordd roedd pobl yn gweithio, y ffordd roedd cyrff yn gweithio, a'r ffordd roedden nhw'n edrych ar y Gymraeg o fewn eu strwythurau eu hunain."

19. Awgrymodd tystiolaeth y Comisiynydd fod Mesur 2011 yn cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg, gan nodi ei bod yn "gweld hadau o lwyddiant yn dod drwodd". Mae hefyd yn cael effaith ar ddiwylliant mewnol nifer o sefydliadau. Er gwaethaf yr anawsterau cychwynnol o ran sefydlu system newydd, pwysleisiodd y Comisiynydd ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd i farnu ei llwyddiant yn llawn:

“Mae angen amser i'r gyfundrefn setlo i ni gael tystiolaeth o effaith newid cyfundrefn. Rydw i'n dal i gredu ei bod hi'n gynnar i fod yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â newid rhywbeth. Rydw i mewn sefyllfa, ac mae'n swyddfa ni mewn sefyllfa, drwy ein gwaith monitro ni, drwy ddelio â chwynion, drwy'n gwaith rheoleiddio ni a thrwy'r cyswllt dyddiol yna rydym ni'n ei gael gyda chyrrff, yn benaethiaid ac yn swyddogion, i weld newid. Mae yna newid yn digwydd.”

Deddfwriaeth dda ond nid perffaith

20. Er bod Mesur 2011 yn cael ei ystyried yn gam arwyddocaol ac yn welliant sylweddol ar Ddeddf 1993 yn ei chyfanrwydd, nid oedd nifer o dystion a fynegodd farn o dan unrhyw gamagraff bod y ddeddfwriaeth yn berffaith. Fodd bynnag, ym marn y Comisiynydd, nid oedd hyn yn golygu bod angen deddfwriaeth newydd:

“Fe welwch chi o fy nhystiolaeth i nad ydw i'n credu bod angen inni ddeddfu. Nid yw'r Mesur sydd gyda ni ar hyn o bryd yn berffaith—rydw i'n cydnabod hynny. Ac rydw i yn credu ar adegau byddai modd efallai ystwytho rhywfaint. Ond mae'r Mesur, yn y bôn, yn Fesur sydd yn rhoi'r sgôp; nid yw'n cyfyngu, ac nid ydw i'n credu ein bod ni eto—a buaswn i ddim ar ôl pump neu chwe blynedd—wedi defnyddio'r Mesur i'r eithaf, o bell ffordd.”

21. Roedd Alun Ffred Jones yn derbyn bod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhy ofalus, yn rhannol oherwydd pryderon Llywodraeth Cymru'n Un ar y pryd am ymateb sefydliadau i'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae'n darparu proses apelio i sefydliadau sy'n “gwneud y broses yn hirach” yn ôl y cyn Weinidog Treftadaeth.

22. Cyfeiriodd Emyr Lewis at gymhlethdod a manylder y Mesur, a ddeilliodd o'r broses Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Dywedodd fod y broses hon, “yn diffinio ac yn rhwystro rhyddid y Cynulliad i ddeddfu yn y maes yma”.

“Mae peth o'r cymhlethdod sydd yn y Mesur yn deillio o'r meicroreoli gan San Steffan a oedd i'w weld yn yr offeryn statudol hwnnw a oedd yn rhoi'r grym i'r Cynulliad ddeddfu.”

23. Rhoddodd Comisiynydd Iaith Iwerddon, Rónán Ó Domhnaill, farn ar Fesur 2011 a'i lwyddiannau a'i wendidau fel rhywun o'r tu allan. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd fod Iwerddon yn awyddus i ddysgu o brofiad Cymru:

“From an Irish perspective, the system of standards is something that I would like to see brought in to Ireland, and the Government have committed to doing that in the heads of a new Bill, which is due to be

published shortly. We hope they intend to move from the system of language schemes to a system of standards. So, I think that's something, certainly, that we would hope to learn from here."

24. Er nad ystyrir bod Mesur 2011 yn berffaith, pwysleisiodd y Comisiynydd fod y ddeddfwriaeth yn "un y dylem ni fod yn falch ohono fe". Yn yr un modd, dywedodd y cyn Weinidog Treftadaeth:

"Rydw i'n meddwl y dylai'r Llywodraeth a'r Cynulliad, o'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chyflwyno, fod yn falch iawn o'r hyn sydd wedi digwydd. Nid ydw i am eiliad yn honni ei bod hi'n berffaith, ond mae wedi symud pethau yn eu blaenau."

Hawliau i siaradwyr Cymraeg

25. Sefydlodd y darpariaethau o fewn Mesur 2011 hawliau i siaradwyr Cymraeg, yn benodol hawliau i gael gwasanaeth Cymraeg gan sefydliadau y mae'r safonau'n berthnasol iddynt.

26. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn dweud bod y Mesur wedi gwella hawliau siaradwyr Cymraeg, a oedd yn rhywbeth i'w groesawu. Nododd cynrychiolydd un bwrdd iechyd:

"Mae'r statws swyddogol i'r Gymraeg yn bwysig, ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu. Wrth gwrs, mae'n cynyddu hawliau ein poblogaeth ni ac, yn bwysicach fyth, ein cleifion ni o ran defnyddio'r Gymraeg bob dydd."

27. Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cytuno â'r farn hon, gan nodi:

"Y mesur cadarnhaol, wrth gwrs, yw ei fod yn gosod hawliau i bobl gyffredin ddefnyddio'r iaith ble bynnag maen nhw am ei wneud, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Ac efallai dyna'r cryfder."

28. Yn yr un modd, nododd Cymdeithas yr Iaith:

"[Mae'r] hawliau sydd wedi cael eu sefydlu drwy'r safonau, faint bynnag o bobl sy'n manteisio arnyn nhw ar hyn o bryd, yn bwysig—achos maen nhw'n hawliau, maen nhw'n hawliau dynol, ac mae gennym ni hawl fel siaradwyr Cymraeg ac fel pobl Cymru i gael yr hawliau yna."

29. Dywedodd yr Athro Robert Dunbar yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor fod y Mesur wedi cael effaith gadarnhaol ar hawliau siaradwyr Cymraeg, yn rhannol oherwydd yr eglurder o ran sut y mynegir dyletswyddau. Dywedodd:

“I think that the standards, particularly the service delivery standards, are providing much more detail and clarity and are beginning to look like rights, although we're very early in the process. And from my perspective, I think that's a positive, not only for the public who, arguably, have a better and clearer understanding of precisely what they can expect in terms of services, but for the regulated bodies themselves.”

30. Fodd bynnag, cwestiynodd Dyfodol i ba raddau y mae'r Mesur wedi darparu hawliau i siaradwyr Cymraeg, yn hytrach na darparu hawliau i'r Gymraeg fel abstract:

“Yn ddiddorol, mae'r holl Fesur iaith yn ymwneud â'r Gymraeg fel abstract. Nid yw'n ymwneud â phobl Gymraeg. Mae yna hawliau i'r Gymraeg. Nawr, os ych chi eisiau sôn am ddefnydd, nid yw'r safonau'n ymwneud â hynny, mewn gwirionedd.”

31. Roedd Emyr Lewis yn amheus a allai'r fframwaith a sefydlwyd ym Mesur 2011 ddarparu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Yn ei farn ef, byddai cymhlethdod y system a'r ymdeimlad nad oedd y system yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg “orfodi'r hawliau yn erbyn y corff yn uniongyrchol” yn broblem. Fodd bynnag, dywedodd fod y “gyfundrefn wedi llwyddo i greu cydymffurfiaeth”, yn rhannol oherwydd gwaith y Comisiynydd ac “ewyllys da oddi mewn i'r sector cyhoeddus”. Serch hynny, rhannodd ei bryder hefyd y gallai “diffyg diddordeb” a pheth “gwrthwynebiad i'r cysyniad o ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus” gyfyngu ar yr hawliau hynny.

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod Mesur 2011 yn gam arwyddocaol ymlaen o gymharu â'i ragflaenydd, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn benodol, roedd Mesur 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn ymgorffori hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg drwy osod dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg ar nifer o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Nid oeddem wedi ein hargyhoeddi, ar y cyfan, bod angen deddfwriaeth newydd ar hyn o bryd, na bod y dystiolaeth ar gyfer hynny yn arbennig o gadarn. Fodd

bynag, ni ddylai deddfwriaeth fyth fod yn statig, ond dylai adlewyrchu anghenion cymdeithas ar y pryd. Clywsom dystiolaeth nad yw'r Mesur yn berffaith, ac y byddai elfennau o fewn y ddeddfwriaeth yn elwa o gael eu diweddaru. Mae hyn yn arbennig o wir am y broses o osod safonau ac ymdrin â chwynion.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor hwn, neu Bwyllgor cyfatebol yn y Chweched Cynulliad, yn ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r safonau a'r dyletswyddau a osodir ar sefydliadau. Dylai'r adolygiad hwn hefyd gynnwys sut y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu.

Argymhelliad 2. Dylai adolygiad yn y dyfodol hefyd gynnwys dadansoddiad o ddatblygiadau ac addasiadau a wneir o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, ynghyd ag effaith y newidiadau hynny.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynigion yn y dyfodol i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn cael eu hategu gan y dystiolaeth ehangaf bosibl. Dylai hyn gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr, gan y byddai'n cael effaith sylfaenol ar hawliau siaradwyr Cymraeg. Dylai'r dystiolaeth ddangos sut y bydd newidiadau o'r fath yn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg.

3. Safonau'r Gymraeg o'u cymharu â Chynlluniau Iaith Gymraeg

Cynlluniau Iaith Gymraeg

32. Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Deddf 1993) yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau iaith Gymraeg.

33. Roedd y cynlluniau hyn yn nodi'r mesurau yr oedd corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf, roedd llawer yn credu bod y system yn wan yn ei hanfod. Nododd y cyn Weinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor:

“Rydw i'n meddwl ei bod hi'n deg dweud bod Deddf 1993 yn gam ymlaen, a bod y cynlluniau iaith eu hunain wedi bod yn gam ymlaen, ond mi oedd yna wendidau yn y drefn. Nid oedd modd gorfodi'r cynlluniau iaith. Roedden nhw'n gynlluniau gwirfoddol rhwng corff a Bwrdd yr Iaith.”

34. Yn yr un modd, nododd Comisiynydd y Gymraeg, a oedd gynt yn Gadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn ei thystiolaeth na allai Bwrdd yr Iaith Gymraeg “reoleiddio, gorfodi a monitro, a thros y blynyddoedd mi ddaeth hynny'n wendid amlwg”.

35. Clywodd y Pwyllgor fod cynlluniau'n amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau, ac na allai siaradwyr Cymraeg fod yn sicr pa wasanaethau y gellid disgwyl iddynt eu darparu. Yn ôl Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith, mae'r sefyllfa bellach yn llawer gwell na'r drefn flaenorol:

“Mae'n llawer llai biwrocraidaidd na'r hen Ddeddf 1993, lle roedd pawb yn paratoi cynllun fel roedden nhw'n dymuno, mewn ffordd, ac nid oedd dim ffordd i bobl ar lawr gwlad i wybod beth oedd yng nghynllun gwahanol gyrff.”

36. I bob golwg roedd sicrhau cysondeb ac eglurder i'r sefydliad a defnyddwyr gwasanaethau yn un o fwriadau Mesur 2011 a'r fframwaith dyletswyddau Cymraeg a sefydlodd. Nododd Dr Elin Royles fod y Mesur wedi galluogi “mwy o gysondeb ar draws sefydliadau”, nad oedd wedi bodoli o'r blaen. Nododd yr Athro Diarmait Mac Giolla Christ hefyd yn ei dystiolaeth fod y safonau bellach yn “llai amwys o ran cynnwys na chynlluniau iaith, a dyna oedd un o nodau'r Mesur yn wreiddiol”.

37. Roedd cynrychiolydd un bwrdd iechyd o'r farn bod y cynlluniau iaith Gymraeg wedi gwella gwasanaethau dros amser, ond bod y Mesur bellach yn darparu cysondeb ledled Cymru:

“Rwy’n meddwl mai cysondeb ydy’r peth arall sydd yn bwysig o ran y Mesur—fod yna gysondeb ar draws Cymru. Rwy’n meddwl bod y gwaith rydym ni wedi’i wneud hyd yn hyn yn adeiladol, efo’r cynlluniau iaith. Mae pethau wedi bod yn gwella dros nifer o flynyddoedd, ond efo’r safonau bydd y cysondeb yna’n dod yn ei le.”

38. Nid oedd dychwelyd i fodel tebyg i gynlluniau iaith Gymraeg bellach yn opsiwn yn ôl rhai tystion. Nododd y cynrychiolydd o Gyngor Sir Caerfyrddin y byddai’n “gam yn ôl” ar ôl y “boen” o gyflwyno’r safonau:

“Rwy’n credu ei bod yn deg i ddweud ein bod ni wedi mynd trwy’r boen o gyflwyno’r safonau—rŷn ni wedi mynd trwy’r broses yna erbyn hyn—a byddai’n gam yn ôl, yn ein golwg ni, i fynd nôl i’r cynlluniau iaith fel maen nhw ar hyn o bryd. Mae’r holl waith datblygu sydd wedi digwydd ar draws y pedair, pum mlynedd diwethaf—. I daflu hwnna nôl i statws y cynlluniau a statws gwirfoddol o ran rheoleiddio—mi fyddai hynny yn gam yn ôl sylweddol, ac yn cyfleu’r neges anghywir.”

Cymhleth a biwrocraidaidd

39. Pwysleisiodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - *Taro’r cydbwysedd iawn*, cymaint o fiwrocraetiaeth a chymhlethdod yr oedd y fframwaith safonau wedi’u creu. Nododd ei bod yn “anffodus bod rhai agweddau ar y Safonau a gyflwynwyd gan y Mesur wedi cael y prif sylw o ran polisi’r Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan effeithio ar ganfyddiad pobl ohono”. Mae hyn wedi’i ysgogi i ryw raddau gan y Mesur ei hun, y cyfaddefodd y cyn Weinidog Treftadaeth ei fod wedi cael ei baratoi yn “ofalus iawn”, a bod yna “lot o checks and balances o fewn y broses”. Mae hyn wedi arwain at broses “hirwyntog ac efallai’n gymhleth” yn ôl y cyn Weinidog. Noda’r Papur Gwyn:

“bod y ffordd y mae’r system yn gweithio yn gosod baich gweinyddol sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae’r dystiolaeth gan gyrff sydd nawr dan y Safonau – cyrff o amrywiol sectorau ac ym mhob rhan o Gymru – yn glir bod cymhlethdod y gweithdrefnau ymgynghori, monitro, cydymffurfio ac adrodd yn golygu cryn amser ac ymdrech i’r sefydliadau.”

40. Crynhodd Colegau Cymru rai o'r anawsterau y mae'r fframwaith deddfwriaethol yn eu creu i sefydliadau:

“Rydw i'n meddwl mai un o'r problemau rydym ni wedi eu cael mewn colegau addysg bellach, yn bennaf, ydy cymhlethdod yr holl broses, a phroses y mae hi wedi bod, rydw i'n meddwl, onid e? Proses hir a llafurus weithiau. Rydw i'n meddwl bod llawer iawn o'r safonau yn gymhleth [ac] yn anodd eu dehongli.”

41. Roedd cydweithiwr o Goleg y Cymoedd yn cytuno â'r farn hon, gan nodi bod y broblem yn aml yn ymwneud â'r dehongliad o safon:

“Rwy'n teimlo efallai taw nad y broblem yw'r safon yn ei hun, ond dehongli'r safonau sydd yn dod gydag e a'r holl ddogfennaeth ar ddehongli'r safonau. Os wyt ti'n darllen y rheini wedyn, rwy'ti'n gweld, 'O, mewn gwirionedd, mae e ddim ond yn berthnasol os wyt ti'n gwneud hyn, hyn, hyn a hyn'. Nid yw'n glir i'r defnyddwyr beth yn union yw eu hawliau nhw o dan y safonau. Felly, buaswn i'n dweud efallai nad y safonau eu hunain yw'r broblem, ond yr holl ddehongli y tu ôl i hynny, sy'n cyfyngu beth yw hawliau pobl.”

42. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn bod y safonau a'r broses dan sylw yn gymhleth ac yn fiwrocraidd, ond roedd hyn yn debygol o ddigwydd o'r cychwyn o ystyried natur gymhleth rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau. Dywedodd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth fod natur ragnodol safonau, a'r broses ofalus o'u cyflwyno a'u gweithredu, serch hynny wedi cael ei chroesawu gan sefydliadau:

“Beth mae'r safonau yn ei wneud yw cymryd gwasanaethau a sefydliadau sy'n reit gymhleth eu natur—awdurdodau lleol, byrddau iechyd—a gosod allan yn glir iddyn nhw beth yw'r disgwyliadau arnyn nhw wrth eu bod nhw'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Cofiwch hefyd fod y safonau'n mynd ymhellach na chynlluniau iaith oherwydd bod cynlluniau iaith yn gyfyngedig i wasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r safonau yma hefyd yn ymwneud â gweithredu mewnol sefydliadau, a oedd yn heriol, ac yn delio â phenderfyniadau polisi sefydliadau, sydd yn gysyniad newydd—

[...] rwy'n derbyn beth rŷch chi'n ei ddweud; mae ambell i sefydliad wedi cwyno bod y broses ar y dechrau yn fiwrocraidd. Fe eglurodd y Gweinidog pam oedd hynny. Ond beth rŷm ni'n ei glywed oddi wrth

sefydliadau nawr yw eu bod nhw'n croesawu'r elfen eithaf penodol sydd yn y safonau. Maen nhw'n gosod allan yn glir beth yw'r disgwyliad."

43. Roedd rhai tystion yn galw ar Lywodraeth Cymru i addasu'r safonau a'r broses o'u gweithredu, fodd bynnag. Dywedodd cynrychiolydd [Colegau Cymru](#) fod rhai o'r safonau yn ailadroddus:

"Buasai'n braf i'w symleiddio nhw. Nid ydym ni eisiau cael gwared arnyn nhw, mae'n bwysig eu bod nhw'n dal yno, ond bod efallai angen eu symleiddio nhw a'u grwpio nhw i mewn i sefyllfaoedd lle buasem ni'n gallu eu deall nhw'n well a buasen nhw'n haws i'w dehongli ac yn haws gweithio efo nhw. Mae yna lot ohonyn nhw'n ailadroddus, ond jest bod rhywbeth bach yn newid ym mhob un."

44. Yn ôl [Emyr Lewis](#), byddai "llai o safonau, mwy syml" yn fuddiol, ond na ddylai unrhyw newid i'r system "[g]olli ei gwerth hi fel cyfundrefn reoleiddio sydd yn gweithio". Nid oedd y cynrychiolydd o [Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#) yn gallu deall pam bod angen cynifer o safonau, gan ddweud:

"I think those standards could have been simplified significantly... There are a number of different standards that have small tweaks within them, small wordings, that I think could have been combined. So, what it would do is embody the meaning of the standards, but instead of having 174 standards, we might have had 30 that would have embodied what those standards meant." (Cyngor Torfaen)

45. Wrth ymdrin â'r mater yn ymwneud â chymhlethdod y fframwaith deddfwriaethol, roedd [Cymdeithas yr Iaith](#) yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod y safonau'n rhoi mwy o eglurder yn awr o gymharu â chynlluniau iaith Gymraeg. Ym marn y Gymdeithas, mae symlrwydd i'r dinesydd yn drech na'r ddadl ynghylch y cymhlethdod i'r sefydliad:

"Rydw i'n meddwl beth sy'n bwysig i'w ystyried yw'r profiad i'r defnyddiwr. Felly, os oes yna ychydig o waith sydd angen ei wneud yn y sefydliadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynnig yn rhagweithiol, rydw i'n meddwl beth sy'n bwysig yw bod yna symlrwydd i'r dinesydd. Ac felly, mae yna waith i'w wneud o ran Cymreigio ein sefydliadau ni, ac er mwyn sicrhau fod hynny'n digwydd, a dyna ddiben y safonau. Ond rydw i'n meddwl hefyd, os byddech chi'n cymharu'r cynlluniau iaith â'r safonau, y gwir yw bod y safonau'n llawer symlach. Mae yna lawer ohonyn nhw, efallai, ond maen nhw'n hollol glir ynghylch beth yw'r gofyniad. Yn yr hen amser, fe allech chi gael trwch o

gynllun iaith ac fe fyddech chi'n gorfod treulio hanner diwrnod yn edrych drwyddo fe i weld beth oedd eich hawliau chi. Mae'n hollol eglur nawr, ac nid ydw i'n meddwl bod nifer y safonau yn rhywbeth sy'n ein pryderu ni yn arbennig, a dweud y gwir."

Rhy gynnar i newid?

- 46.** Daeth y set gyntaf o safonau, a oedd yn berthnasol i awdurdodau parciau lleol a chenedlaethol a Llywodraeth Cymru i rym ar 30 Mawrth 2016, bum mlynedd ar ôl i Fesur 2011 gael ei basio. Mae mwyafrif y sefydliadau sy'n gweithredu safonau ar hyn o bryd wedi bod yn gwneud hynny ers dim ond blwyddyn neu ddwy.
- 47.** Er gwaethaf cynigion Llywodraeth Cymru i ailwampio'r fframwaith deddfwriaethol presennol, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn dweud ei bod yn rhy gynnar yn y broses i newid y ddeddfwriaeth, a'r system safonau yn ei sgil.
- 48.** Dim ond nawr y mae'r system yn ymsefydlu, yn ôl rhanddeiliaid, a nododd Emyr Lewis, er bod y Mesur wedi bodoli ers bron i wyth mlynedd, mai "cymharol ychydig amser mae'r safonau wedi ei gael i brofi eu gwerth". Nododd Dr Huw Lewis o Brifysgol Aberystwyth, ar drywydd tebyg, fod y "syniad o gyflwyno diwygiadau sydd mor sylweddol i'r pecyn yna ar hyn o bryd yn taro rhywun fel rhywbeth sy'n digwydd yn eithriadol o sydyn".
- 49.** Nododd Comisiynydd y Gymraeg yn glir ei bod, yn ei barn hi, "lot rhy gynnar i benderfynu bod angen newid y ddeddfwriaeth yn llwyr" ac "nid yw'r dystiolaeth yna" ar gyfer newid y system.
- 50.** Er gwaethaf y ffaith mai dim ond am gyfnod byr y mae'r safonau wedi bodoli, mae tystiolaeth bod y fframwaith rheoleiddio eisoes yn cael effaith. Nododd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth:
- "Rydw i yn credu, fel rydym wedi'i ddweud yn y dystiolaeth, ein bod wedi gweld cynnydd. Ar ôl cyfnod byr o amser—ac mae yn gyfnod byr o amser gyda gweithredu deddfwriaeth—rydym wedi gweld newid ar lawr gwlad o ran argaeledd gwasanaethau a chysondeb gwasanaethau."
- 51.** Nododd y Comisiynydd hefyd newid diwylliant sylweddol a mwy o ymwybyddiaeth o fewn y sefydliadau sy'n gweithredu'r safonau. Adleisiwyd y farn hon gan nifer o dystion sy'n gweithredu'r safonau ar hyn o bryd, megis CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) sydd wedi bod yn gweithredu'r safonau ers mis Ebrill 2018. Dywedodd CCAUC wrth y Pwyllgor fod y sefydliad yn dechrau

gweld arwyddion o fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y swyddfa ac yn y gweithle, a bod y system yn cynyddu'r diwylliant hwnnw o ddwyieithrwydd. Nododd Cyngor Celfyddydau Cymru, yn yr un modd, ei fod "wedi codi ymwybyddiaeth" ac wedi "gwneud y Gymraeg lot yn fwy gweladwy yn fewnol". Yn yr un modd, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei dystiolaeth:

"Mae wedi gosod fframwaith sydd o help efo cyflwyno ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd wedi creu ymwybyddiaeth fewnol yn y staff a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, dwi'n meddwl, o fewn y cyngor efo staff, a bod defnydd o'r Gymraeg mwy ar y blaen nag efallai yr oedd o gynt oherwydd yr orfodaeth bendant." (CBS Wrecsam)

52. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wrth y Pwyllgor, yn dilyn y cyhoeddiad bod Bil y Gymraeg wedi'i dynnu'n ôl, ei bod hi a'i swyddogion bellach yn ymchwilio i ffyrdd o "symleiddio'r system reoleiddio" o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol:

"Dwi'n meddwl bod pob un yn deall ei bod hi'n hanfodol ein bod ni'n edrych ar symleiddio'r system o reoleiddio, ond ei bod hi'n bosibl gwneud hynny tu fewn i'r ddeddf bresennol. Ac rŷn ni wedi gofyn am gyngor cyfreithiol i sicrhau ac i wthio'r posibiladau sydd o fewn y comisiynydd ar hyn o bryd."

Gohirio cyflwyno rheoliadau pellach

53. Ym mis Mehefin 2018, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn y Cyfarfod Llawn "na fyddwn ni yn cyflwyno mwy o safonau ar gyfer sectorau eraill am y tro." Yn ôl y Gweinidog, gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn "canolbwyntio ein hadnoddau ni ar ddatblygu'r Bil newydd."

54. Er bod cyrff allweddol sy'n cael arian cyhoeddus a sectorau hanfodol megis iechyd bellach yn gweithredu safonau neu ar fin eu gweithredu, gohiriodd y penderfyniad hwn y broses o gyflwyno rhagor o safonau. Ni fyddai'n rhaid i sectorau megis trafniadaeth, y cyfleustodau, cymdeithasau tai a chyrff cyhoeddus a grëwyd ar ôl i Fesur 2011 gael ei basio gydymffurfio â'r gyfundrefn safonau yn y dyfodol agos. Mynegodd rai rhanddeiliaid bryder am benderfyniad y Gweinidog. Nododd Dr Huw Lewis ei bryderon ynghylch effaith bosibl y penderfyniad ar ddefnyddwyr gwasanaethau er enghraifft:

"un o'r pethau sydd yn broblem fawr yn y penderfyniad yna yw'r ffaith ein bod ni'n parhau mewn sefyllfa lle nad yw'r gwasanaethau iechyd

wedi dod o dan y drefn safonau eto. Mae hwnnw'n sector pwysig iawn, allweddol iawn, ac mae'r penderfyniad i oedi felly yn golygu bod yna rai sectorau allweddol sydd ddim yn gweithredu o dan y system reoleiddio ar hyn o bryd, ac mae hynny yn gonsyrn."

55. Roedd rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ohirio cyflwyno rhagor o reoliadau'n ddryswch i'r cyn Weinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones:

"Wel, nid wyf yn deall y rhesymeg. Hynny ydy, os ydy'r broses wedi gweithio o fewn y 107 o gyrrff yma, lle mae'r safonau wedi eu gosod—er fy mod i'n gresynu bod y broses wedi cymryd mor hir, ond dyna fo—ac o fewn amser cymharol fyr, yn ôl y Comisiynydd a'i thystiolaeth i chi, mae hi wedi gweithio. Mae peidio â'i ymestyn i'r cyfleustodau a pheidio ag ymestyn i delegyfathrebu yn gamgymeriad achos os ydy o'n gweithio, bydd yn gweithio yn fan hyn hefyd."

56. Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru bod Bil arfaethedig y Gymraeg wedi ei dynnu'n ôl, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y gellid cyflwyno rheoliadau ar gyfer rhai sectorau, megis rheoleiddwyr dŵr ac iechyd, yn gyflym. Disgwylir i reoliadau ar gyfer cymdeithasau tai gael eu cyflwyno ar ôl y rhain, ond mae trafodaethau gyda chwmnïau cyfleustodau yn parhau. Dywedodd y Gweinidog:

"One of the things that I've done is that I've written to the utilities companies and asked them to come in and have a discussion about what they're doing already, how far we can persuade them to work at the moment. I think we've got to be careful and sensitive in the way we approach this, because the last thing we want to do is see people not invest in Wales as a result."

Ein barn ni

Rydym yn cytuno â'r farn gyffredinol a fynegwyd mewn tystiolaeth nad nawr yw'r amser i gyflwyno deddfwriaeth newydd, ac rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i dynnu ei chynlluniau ar gyfer Bil y Gymraeg yn ôl.

Serch hynny, rydym yn derbyn bod y fframwaith safonau a sefydlwyd gan Fesur 2011 yn gymhleth ac wedi'i ddrafftio'n ofalus, a bod y dyletswyddau a osodir ar sefydliadau yn fanwl. Yn ddiaw, mae'r broses o gyflwyno a gweithredu safonau yn drylwyr ac, o ganlyniad, yn cymryd amser. Fodd bynnag, clywsom hefyd, er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â'r broses, fod y safonau, ar ôl iddynt gael eu

rhoi ar waith, yn darparu lefel o sicrwydd i'r sefydliad a'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r safonau eu hunain hefyd yn sicrhau mwy o gysondeb o ran y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ar draws sefydliadau a sectorau cyfan, nad oedd yn bodoli o dan Ddeddf 1993 a chynlluniau iaith Gymraeg.

Dim ond am gyfnod byr y mae'r safonau wedi bod ar waith, a chredwn nad oes digon o dystiolaeth gadarn ar hyn o bryd i gyfiawnhau diwygio'r fframwaith deddfwriaethol yn sylweddol. Yn wir, mae'r dangosyddion cynnar o swyddfa'r Comisiynydd yn awgrymu bod y safonau'n cael effaith ar ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg. Gallai'r cynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru i newid y fframwaith deddfwriaethol atal momentwm ac ychwanegu at yr ansicrwydd mewn sectorau sydd eisoes yn wynebu sefyllfa ariannol heriol.

Serch hynny, lle mae hyblygrwydd yn bodoli o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol i adolygu'r broses safonau (boed hyn drwy ddeddfwriaeth eilaidd neu newidiadau polisi), dylid ymchwilio i hyn yn llawn. Fodd bynnag, dylai unrhyw newidiadau fod o fudd i'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i'r sefydliad.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau i addasu safonau'r Gymraeg, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Gellid gwneud hyn drwy adolygu neu gyfuno safonau lluosog sydd â'r un nod neu ganlyniad. Ni ddylai unrhyw newidiadau a wneir gael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Argymhelliad 5. Dim ond ar gyfer sectorau nad ydynt yn gweithredu safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd o dan Fesur 2011, megis cymdeithasau tai, cyfleustodau a chyrrff trafnidiaeth, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau.

Argymhelliad 6. Rydym hefyd yn argymhell, lle bo hynny'n bosibl o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, bod Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ymchwilio i opsiynau i gyflymu'r broses o gyflwyno a gweithredu safonau mewn sectorau nad ydynt eisoes yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer y gwaith hwn.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, ond dim ond ar ôl ystyried yr angen i adolygu'r safonau, gyflwyno'r set nesaf o reoliadau i reoleiddwyr yn y maes iechyd a chwmnïau dŵr.

4. Gweithdrefnau cwyno yn ymwneud â'r Gymraeg

57. Roedd y fframwaith cwynion yn agwedd allweddol ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg. Nododd yn ei hymgyngghoriad ar y Papur Gwyn fod tystiolaeth a oedd yn profi bod angen newid pwyslais o "orfodi" i "unioni". Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai achwynwyr allu mynd â'u cwyn at y sefydliad yn gyntaf (yn yr un modd â systemau cwyno eraill) ac ni ddylid cynnal archwiliad llawn i fân achosion neu achosion "ansylweddol" o dorri'r safonau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

58. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ymwneud â gweithredu'r system gwynion a sefydlwyd gan Fesur 2011 (er ei bod yn gyfyngedig ar y cyfan i'r rhai sydd â phrofiad o weithredu o fewn y fframwaith cwynion ac ymdrin â chwynion, sef awdurdodau lleol). Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod problemau gyda'r system bresennol, gydag awdurdodau lleol yn galw am newid y dull yn unol â phrosesau cwynion eraill.

59. Oherwydd yr ystod eang o wasanaethau y maent yn eu darparu, mae awdurdodau lleol yn cyfrif am gyfran fawr o'r cwynion a dderbyniwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt gan y Comisiynydd (fel yr amlygwyd yng [nghofrestr ymchwiliadau](#) y Comisiynydd). Roedd awdurdodau lleol hefyd yn yr haen gyntaf o sefydliadau i ddechrau gweithredu'r safonau, ac felly hwy sydd â'r profiad mwyaf o weithio o fewn y fframwaith cwynion a sefydlwyd gan Fesur 2011.

60. Yn ei [thystiolaeth i'r Pwyllgor](#), roedd cynrychiolydd o Gyngor Sir Gaerfyrddin yn feirniadol o'r system gwynion bresennol, gan nodi "nad yw'r broses fel y mae hi'n gweithredu ar hyn o bryd yn addas". Aeth ymlaen i ddweud:

"Ar hyn o bryd, mae cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu trin yn gwbl wahanol i unrhyw gwynion eraill y mae'r cyngor yn eu derbyn a byddwn i'n dadlau bod eisiau i gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg fynd trwy broses mewnol y cyngor yn gyntaf ac os nad yw'r achwynydd yn hapus gyda'r ymateb maen nhw wedi'i dderbyn, wedyn bydden nhw'n gallu mynd at y comisiynydd. Yr un fath fyddech chi'n ei wneud gydag unrhyw gŵyn arall yn mynd ymlaen at yr ombwdsman. Dyna'r gwendid o'n safbwynt ni ar hyn o bryd. Rŷn ni'n derbyn cwynion ar hyn o bryd trwy'r comisiynydd. Mae'r broses yn hirfaith: rŷch chi'n gorfod sefydlu cylch gorchwyl yn ymwneud â'r gŵyn ac yn aml, mae'r gŵyn wedi cael ei datrys cyn bod y cylch gorchwyl o ran yr ymchwiliad wedi

cael ei osod. Felly, mae'n wastraff adnoddau inni, mewn gwirionedd, achos rŷm ni wedi delio gyda'r gŵyn cyn i'r ymchwiliad gychwyn."

61. Roedd hyn yn farn a adleisiwyd gan gymheiriaid y swyddog o gynghorau Wrecsam a Thorfaen yn y drefn honno:

"Wedyn, buasai cyfle, efallai, i ddatrys pethau felly yn fewnol cyn eu bod nhw'n mynd ymlaen fel cwyn ffurfiol—dwi'n meddwl y buasem ni'n croesawu hynny a buasai hynny'n rhyddhau rhywfaint o'n hamser ni i ganolbwyntio ar annog cydymffurfio efo'r safonau yn fwy cyffredinol.

I totally concur... It's different to every other approach that we take on complaints. It would be fundamentally beneficial to us if the complaints process was brought into alignment with the other processes that we work with in relation to complaints to the ombudsman. So, an internal opportunity to rectify the issue first—informing the customer that that's been done—I think would definitely improve the process."

62. Pwysleisiodd yr Athro Diarmait Mac Giolla Christ yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, y dull unigryw o ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg o gymharu â chwynion eraill a wneir yn erbyn sefydliad. Nododd y dylai fod "[c]yfle gan y corff i wneud iawn am y gŵyn" yn y lle cyntaf, yn hytrach na rhoi hawl i unigolion fynd yn syth at y Comisiynydd.

63. Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth, mae Cymdeithas yr Iaith yn anghytuno â'r farn hon, ac yn dweud bod y system yn ei gwneud yn llawer "haws i bobl gwyno, achos rŷch chi'n cwyno yn syth at y Comisiynydd", a bod y fframwaith bellach yn "ffafrio'r defnyddwyr dipyn mwy".

64. Mewn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd ar 4 Hydref 2018, nododd y Dirprwy Gomisiynydd effaith y fframwaith cwynion presennol o'i gymharu â'r fframwaith blaenorol a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993:

"Mae yna wahaniaeth. O fod yn ymchwilio i bethau o dan y Ddeddf iaith cyn i safonau ddod i mewn, nid oedd yna wastad sicrwydd y byddai corff yn ymateb o gwbl i gwynion am y Gymraeg. Ond rŷan, mae dyletswydd arnyn nhw i ymateb, i roi dystiolaeth, ac maen nhw yn ei wneud.

[...] Mae wedi grymuso sefyllfa'r unigolyn. Iawn, maen nhw'n cwyno wrthym ni'n uniongyrchol yn hytrach na'r sefydliad, ond mae'r unigolyn

mewn sefyllfa fwy grymus pan fo pethau ddim yn digwydd yn iawn yn y Gymraeg, ac mae hynny, rydw i'n meddwl, yn beth da.”

65. Nododd yr Athro R. Gwynedd Parry yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor bod yna “le i wella” yn sicr, ond ei fod yn fater o fireinio'r system orfodi yn hytrach na'i hailwampio. Dywedodd:

“Mae'n amlwg, o'n profiad ni, fod yna elfennau sydd eisiau eu gwella, felly, hoffwn i fod yna ganllawiau clir ar egwyddorion o ran y broses gorfodi.

[...] Rydym ni'n gwybod o benderfyniadau'r tribiwnlys fod y Mesur yn gofyn i ymchwiliad ddigwydd bob tro, bron iawn. Yn yr achosion hynny, fe wnaeth y comisiynydd ddweud, 'Nid oes pwynt ymchwilio i hwn, achos mae'r peth wedi mynd hebio'. Wel, mi oedd y tribiwnlys yn dweud, 'Wel, na, mae'n rhaid ichi ymchwilio os oes yna gŵyn ac os ydy o'n cwrdd â'r meini prawf yn y Mesur'. Felly, mae yna elfennau o'r Mesur y mae'n rhaid eu newid yn sicr, yn fy marn i, er mwyn cael gwared â rhai o'r elfennau hyn sydd ddim yn gweithio cystal ar hyn o bryd.”

66. Gwnaeth y Gweinidog sylwadau ar y system gwynion yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Chwefror 2019 gan ddweud ei bod hi a'i swyddogion eisoes yn trafod gyda'r Comisiynydd i weld pa mor bell y gellid gwthio'r fframwaith presennol. Ym marn y Gweinidog, mae profiad Tribiwnlys y Gymraeg yn awgrymu bod cyfle i gyflymu'r system, ac i geisio cael datrysiad yn fewnol cyn i'r Comisiynydd fynd â'r gŵyn ymhellach.

Ein barn ni

Clywsom dystiolaeth a oedd yn nodi bod y weithdrefn gwyno a sefydlwyd gan Fesur 2011 yn datblygu ar y system flaenorol a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993. Mae'r system bresennol yn darparu llwybr ffafriol i siaradwyr Cymraeg tuag at ganlyniadau cadarnhaol, ac yn rhoi sicrwydd i achwynwyr y bydd eu cwyn yn cael ei datrys.

Yn ein barn ni, dylai Comisiynydd y Gymraeg gadw'r gallu i ymchwilio i gwynion sy'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd. Fodd bynnag, pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol, credwn fod cyfle i ystyried, mewn rhai amgylchiadau, proses de-minimis. Gallai proses de-minimis arwain at ddatrys cwynion yn gynt mewn rhai amgylchiadau, gan arbed adnoddau gwerthfawr i'r Comisiynydd a'r sefydliadau sy'n destun ymchwiliad. Fel rhan o'r

broses de-minimis, dylai'r cwynion fynd drwy swyddfa'r Comisiynydd er mwyn iddo allu monitro tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Argymhelliad 8. Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau, lle y ceir hyblygrwydd o fewn y fframwaith deddfwriaethol, i gyflymu'r broses gwynion. Dylai hyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus, a sicrhau bod cwyn defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei datrys yn gyflym lle bynnag y bo modd.

Argymhelliad 9. Dylai Comisiynydd y Gymraeg adolygu ei weithdrefnau cwyno yn gyson o ran eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

5. Hybu'r Gymraeg

67. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n credu sy'n briodol i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith. Yn ogystal, prif nod y Comisiynydd, fel y nodir yn Adran 3 o'r Mesur, yw "hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg". Er gwaethaf pwerau eang ym Mesur 2011 i'r Comisiynydd hybu a hwyluso'r iaith, cafodd cyllid ac adnoddau ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo, ar y cyfan, eu trosglwyddo (o Fwrdd yr Iaith Gymraeg) i Lywodraeth Cymru. Daeth yr Uned Iaith Gymraeg estynedig, sy'n is-adran Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am y gweithgareddau hybu a arferai fod yn gyfrifoldeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cynlluniau megis Twf - Cymraeg o'r Crud, a dosbarthu arian grant i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ynghyd â darparu grantiau sy'n cefnogi ac yn hybu'r iaith ledled Cymru (e.e. y Mentrau Iaith a'r Urdd).

68. Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) (fel y'i diwygiwyd gan Fesur 2011) eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru *fabwysiadu strategaeth (strategaeth y Gymraeg) a chynllun, yn nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg*. Roedd llawer o'r offer sydd eu hangen i gyflawni nodau Strategaeth y Gymraeg wedi cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac maent yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru.

Y cyfrifoldeb dros hybu'r iaith

69. Mae'n ymddangos bod drafftio Mesur 2011 wedi achosi rhywfaint o ddryswch o ran rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd o ran hybu'r iaith. Mae'r Comisiynydd yn aml wedi wynebu beirniadaeth am ganolbwyntio gormod ar reoleiddio, yn hytrach na rhoi mwy o bwyslais ar hybu. Mae Dyfodol yn aml wedi mynegi ei rwystredigaeth gyda hyn, a dywedodd ei dystiolaeth fod:

"y Ddeddf wedi rhoi'r hawl i Gomisiynydd y Gymraeg hyrwyddo a hybu'r Gymraeg—ac mae'r termau hynny'n digwydd dwy, dair, pedair gwaith yn y Ddeddf: 'hybu a hyrwyddo'r Gymraeg'—rydw i'n ofni bod y modd y mae'r comisiynydd wedi gweithredu wedi rhoi'r pwyslais yn fwyaf, neu'n bennaf o leiaf, ar y rheoleiddio ac ar faterion statws, ac nid ar faterion hybu a hyrwyddo."

70. Roedd yn ymddangos bod Trosolwg o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn ategu'r farn hon, gan nodi "ar hyn o bryd, credwn fod gormod o bwyslais ar reoleiddio, a diffyg pwyslais ar hybu".

71. Ymhelaethodd y Gweinidog ar farn Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor:

“O ran hybu a hyrwyddo, y prif bwynt roeddwn i'n ei wneud yn y Papur Gwyn oedd i ddweud bod angen inni newid y pwyslais i fod ar hybu a hyrwyddo... rŷn ni'n meddwl—rŷn ni'n dal i feddwl—bod y pwyslais ar hyn o bryd yn ormodol ar y safonau a rheoleiddio, ar draul yr adnoddau a allai fod yn mynd i mewn i hybu a hyrwyddo. A beth rŷn ni eisiau ei weld yw balans gwell... achos ein bod ni'n pryderu efallai nad oedd y gwaith yna yn cael ei wneud gan y Comisiynydd ar hyn o bryd, mae'r gwaith yna yn cael ei wneud nawr gan y Llywodraeth.”

72. Mae tystiolaeth gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys y cyn Weinidog Treftadaeth, yn anghytuno â'r safbwynt hwn. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd ei fod ef, fel Gweinidog, a'r Llywodraeth yn ei chyfanrwydd o'r farn mai Llywodraeth Cymru oedd yn bennaf gyfrifol am hybu'r iaith, gydag Uned Iaith Gymraeg gref yn llywio'r gwaith hybu hwnnw. Roedd beio'r Comisiynydd am beidio â gwneud gwaith hybu yn “annheg” yn ei farn ef:

“Y Llywodraeth oedd i fod i wneud llawer o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Fwrdd yr Iaith gynt. Os nad yw'r Llywodraeth wedi ei wneud o, mater i'r Llywodraeth ydy esbonio hynny, nid beio'r Comisiynydd am beidio â gwneud rhywbeth nad oedd, mewn gwirionedd, o fewn ei remit hi. Felly, annheg ydy disgwyl i'r Comisiynydd fod yn gwneud yr holl waith hybu a hyrwyddo a rheoleiddio.”

73. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, gan nodi yn ei thystiolaeth mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hybu'r iaith yn y pen draw:

“Rwy'n meddwl yr oedd e'n eglur o'r penderfyniad gwleidyddol a gafodd ei wneud gan Lywodraeth Cymru'n Un mai'r disgwyl oedd y byddai'r Llywodraeth yn hybu'r Gymraeg, a dyna le mae'r adnoddau wedi mynd i wneud hynny. Ac, felly, o'n safbwynt ni—a derbyn, wrth gwrs, nad yw system y Mesur a'r safonau yn berffaith—mae'n edrych fel, wrth i'r split yna ddigwydd, bod y gwaith ar reoleiddio'r Gymraeg wedi gweld gwelliant sylweddol, a lle mae yna wendid yw'r gwaith hybu, sef y gwaith sydd i fod i ddigwydd o fewn Llywodraeth Cymru. Dyna fyddai'n prif bwynt ni am hynny.”

74. Dywedodd Dr Elin Royles, o ran hybu'r iaith, ei bod yn ei barn hi yn “eithaf eglur taw rôl y Llywodraeth ydy hynny'n bennaf”, gyda'r Comisiynydd yn ymgymryd â rhai elfennau hybu. Aiff ymlaen i nodi nad yw'r ddeddfwriaeth, er

gwaethaf y ffordd y cafodd ei drafftio, “yn golygu bod y cyfrifoldeb ar y Comisiynydd i fod yn bennaf gyfrifol am hybu'r iaith”.

Cyfle i ehangu rôl y Comisiynydd

75. Er gwaethaf y darpariaethau yn y Mesur i'r Comisiynydd hybu a hwyluso'r iaith mewn unrhyw ffordd briodol, mae'r dystiolaeth yn glir bod gallu'r Comisiynydd i wneud hyn mewn gwirionedd yn gyfyngedig. Ar wahân i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb dros lawer o weithgareddau hybu a arferai fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, nid oes gan y Comisiynydd yr adnoddau i ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

76. Yn ei thystiolaeth, dywedodd y Comisiynydd fod yna “le o fewn y ddeddfwriaeth bresennol” i gryfhau gwaith hybu'r Comisiynydd:

“Rydw i yn credu bod yna le a sgôp o fewn y ddeddfwriaeth bresennol, achos deddfwriaeth fframwaith yw hi, sy'n caniatáu. Mae yna le i gryfhau'r elfen hybu a hwyluso'r comisiynydd.

[...]Rydw i'n dal i feddwl nad ydym wedi manteisio yn llwyr ar y pwerau sy'n bodoli o fewn y ddeddfwriaeth bresennol o ran hybu a hwyluso, a'r cyfleoedd sy'n eistedd o fewn swyddfa'r Comisiynydd i wneud peth o'r gwaith yna.... prinder adnoddau ar hyn o bryd sy'n gwneud hynny'n anodd.”

77. Fodd bynnag, nododd y Comisiynydd hefyd mai'r prif sbardun ar gyfer newid yw strategaethau Llywodraeth Cymru ei hun, megis y strategaeth addysg.

78. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn cytuno â'r farn nad oedd “dim byd i atal y Comisiynydd rhag hybu'r Gymraeg”. Fodd bynnag, dywedodd Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith hefyd mai dim ond traean o adnoddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a drosglwyddwyd i'r Comisiynydd, ac “aeth y gweddill i gyd i mewn i'r Llywodraeth”.

79. Nid oedd yr Athro R. Gwynedd Parry yn credu bod angen Deddf newydd i ymdrin â hybu ac, yn hytrach, y dylid canolbwyntio ar adnoddau a pholisïau:

“Nid wyf i'n gwbl siŵr os oes angen cyfraith neu Ddeddf i ddelio gyda hyrwyddo. Os mai'r diffyg ydy'r hyrwyddo, yr elfen honno, nid wyf yn siŵr os oes eisiau cyfraith newydd. Beth sydd ei eisiau ydy adnoddau, strwythura, polisïau y pethau yna sydd eu hangen rŵan.”

Safonau fel dull hybu

80. Er bod llawer o'r ddadl ynglŷn â hybu'r iaith wedi bod yn ymwneud â hybu "meddal", e.e. annog defnydd o fewn teuluoedd a chymunedau, pwysleisiodd Dr Huw Lewis bwysigrwydd y safonau fel arf i hybu'r iaith. Yn ei dystiolaeth, honnodd:

"Mae'r term 'hybu' yna yn un lletchwith, achos fe allwch chi ei ddefnyddio fe mewn perthynas â rhai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag annog sefydliadau i gwrdd â'u dyletswyddau—dyletswyddau statudol—ond wedyn mae e hefyd yn ymwneud â hybu cyrff sydd efallai ddim o dan y ddeddfwriaeth, neu rannu arferion da a hybu ymddygiad ac agweddau cadarnhaol ymhlith y staff. Ond mae hynny'n wahanol efallai i'r math o waith sy'n ymwneud â chynlluniau iaith ymhlith unigolion a theuluoedd yn eu bywyd dydd i ddydd."

81. Honnodd y Comisiynydd hefyd fod y safonau yn fodd o hybu'r iaith y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn gyffredinol fel hybu iaith:

"Rydw i yn credu bod safonau yn ffordd o hybu, hefyd. Rydw i yn credu bod rhoi disgwiliadau ar sefydliadau yn rhan o greu gwasanaethau, ac mae gwneud hynny mewn ffordd fel, gobeithio, rydym ni yn ei wneud erbyn hyn, lle rŷm ni'n gweithio gyda nhw yn agos i greu gwasanaethau sydd yn fodern, yn gyfoes ac yn ddwyieithog, yn ffordd o hybu a hwyluso."

Creu corff hyd braich i hybu'r iaith

82. Mae Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol i'r Iaith wedi galw ers peth amser am asiantaeth hyd braich i fod yn gyfrifol am hybu'r iaith. Byddai'r asiantaeth hon yn canolbwyntio ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd. Nododd Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith:

"Byddwn i'n cytuno bod angen corff i hybu y tu allan i'r Llywodraeth. Rydym ni'n teimlo'n gryf iawn y dylai rheoleiddio gael ei adael fel y mae e am y tro a bod angen corff [i hybu'r iaith]."

83. Fodd bynnag, roedd Cymdeithas yr Iaith hefyd yn derbyn bod y rhain yn gyfnodau anodd o ran cyllid cyhoeddus, ond er mwyn cyflawni nod y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, "mae yna ofyn am weithredu sylweddol a buddsoddi":

"Nid ydym yn mynd i gyrraedd y targed hwnnw tan fod gennym ni Lywodraeth sydd yn barod i roi'r arian a'r strategaeth i mewn er mwyn

sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae yna deimlad, rydw i'n meddwl, bod y gwaith hybu angen newid gêr yn sylweddol, ac rydw i'n meddwl mai ein dewis ni a fyddai cael corff y tu allan i'r Llywodraeth ar gyfer hybu'r Gymraeg."

84. Roedd Dyfodol i'r Iaith yn rhagweld y byddai corff hyd braich yn gallu "gosod yr agenda iaith". Byddai'n rhaid i'r corff newydd "ddatblygu arbenigedd parhaol a bod gennych chi gynllunwyr iaith parhaol a bod y rheini wedyn yn llunio rhaglen gyflawn yn ymwneud â phob agwedd ar fywyd".

85. Roedd Emyr Lewis yn cytuno â'r angen am gorff allanol i hybu'r iaith, a fyddai, yn ei farn ef, yn fwy ystwyth nag y gallai llywodraeth fod. Nododd er bod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wendidau fel rheoleiddiwr, ystyriwyd ei fod yn "llwyddiannus o ran bod yn ysgafn droed ac yn strategol":

"Nid yw Llywodraethau felly. Nid ydyn nhw'n ysgafn droed a wastad yn strategol. Mae'r ffordd y mae arian yn cael ei wario yn destun ymrafael mewanol rhwng Gweinidogion ac adrannau a'i gilydd."

86. Roedd gan UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) hefyd farn debyg, gyda'i gynrychiolydd yn nodi "nid y gwasanaeth sifil, o reidrwydd, yw'r corff gorau ar gyfer y gwaith o hybu a hyrwyddo".

87. Serch hynny, mae Cymdeithas yr Iaith hefyd o'r farn y dylid cryfhau yr Uned Iaith Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru, ac y dylai fod ganddi rôl strategol ehangach ar draws y Llywodraeth:

"Mae'n hollbwysig hefyd fod yna isadran neu adran o fewn Llywodraeth Cymru sy'n hybu'r Gymraeg, achos...mae gan y Llywodraeth rym mawr a dylanwad mawr dros bopeth sy'n digwydd yng Nghymru, ac os nad oes yna adran rymus o fewn y Llywodraeth hefyd i hybu'r Gymraeg, rydw i'n meddwl bod peryg inni golli cyfleoedd...fel addysg, cynllunio ac ati.

Felly, mae angen gwaith hybu y tu allan i'r Llywodraeth. Mae ei angen o fewn y Llywodraeth hefyd."

88. Er gwaethaf galwadau gan rai am gorff allanol ar wahân gyda chyfrifoldeb am hybu'r iaith a chynllunio ieithyddol, er bod Dr Elin Royles yn derbyn y dadleuon y gallai asiantaeth allanol fod yn fwy "hylaw", nid oedd yn derbyn ei bod yn anochel na all y Llywodraeth gyflawni'r gwaith hybu sydd ei angen:

"Rwy'n derbyn rhai o'r dadleuon ynghylch potensial asiantaeth allanol i fod yn fwy hylaw...nid ydw i'n derbyn ei bod hi'n anochel nad yw

Llywodraeth yn gallu gwneud gwaith hyrwyddo. Mae'r Llywodraeth yn gwneud gwaith hyrwyddo mewn meysydd fel yr amgylchedd, iechyd ac yn y blaen, gan weithiau ddefnyddio asiantaethau allanol... Yn ail, yn y cyfnod yma o lymdra sy'n effeithio'n ddirfawr ar y ffaith ein bod ni'n cael y drafodaeth yma yn y lle cyntaf, rwy'n ei gweld hi'n anodd iawn gwneud dadl dros gael asiantaeth ar wahân, allanol."

89. Cyflwynodd Dr Elin Royles y ddadl dros Uned Iaith Gymraeg gryfach, gan nodi "nid yw'r cyllidebau dros y Gymraeg yn mynd i gynyddu'n sylweddol", ac yn y cyfnod hwn o lymdr, ei bod hi'n "anodd iawn gwneud dadl dros gael asiantaeth ar wahân, allanol":

90. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywed y Gweinidog nad yw'n credu bod trydydd corff i fod yn gyfrifol am hybu'r iaith yn opsiwn. Nododd y Gweinidog y byddai'n "cymhlethu'r darlun". Yn hytrach, cynigiodd symud rhai swyddogaethau hybu i'r Comisiynydd, gan gynnwys gwaith Cymraeg Byd Busnes sy'n cefnogi busnesau bach i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg:

"Mae eisoes yn ddigon caled i bobl, dwi'n meddwl, fod y Llywodraeth ar gael a'r Comisiynydd. Felly, pan dyw cwmnïau trên ddim yn defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft, pwy maen nhw'n ffonio? Dwi'n meddwl petasai asiantaeth hefyd, byddai hwnna'n cymhlethu'r darlun. Felly, dŷn ni ddim yn mynd i lawr y trywydd o gael asiantaeth ar gyfer hybu a hyrwyddo. Fe fyddwn ni'n trafod ymhellach nawr ynglŷn â ble'n union dylai hybu a hyrwyddo fod. Mae rhai agweddau ar hyrwyddo y bydd yn rhaid iddynt aros yn y Llywodraeth, ond mae eraill y credaf y byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i'w trosglwyddo i'r Comisiynydd, pe bai hynny'n bosibl ac os oeddem yn hyderus na fyddai'r bobl hynny cael eu sugno i mewn i reoliad. Wedyn, dwi yn meddwl bod yna bosibilrwydd y gallem ni fynd i lawr y trywydd yna."

Ein barn ni

Yn ein barn ni, roedd y feirniadaeth a anelwyd at y Comisiynydd mewn perthynas â chanolbwyntio ar reoleiddio yn hytrach na gweithgarwch hybu (sef y gwaith hybu meddalach) yn anghyfiawn ac mae'n parhau i fod yn anghyfiawn. Mae'n amlwg i ni mai rheoleiddiwr yw Comisiynydd y Gymraeg yn gyntaf oll.

Yn y blynyddoedd cyntaf, roedd gan y Comisiynydd y dasg anodd o sefydlu a gweithredu fframwaith rheoleiddio sy'n hybu a hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg ar draws ystod eang o sectorau. Er bod darpariaethau yn y Mesur sy'n grymuso'r Comisiynydd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn

ehangach, roedd y dystiolaeth yn glir bod y swyddogaethau hybu allweddol yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru. Wedi'r cyfan, Llywodraeth Cymru sydd â'r prif ysgogiadau polisi a'r adnoddau allweddol yn y meysydd sydd eu hangen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, os caiff rhagor o weithgareddau hybu eu trosglwyddo i'r Comisiynydd, mae'n rhaid darparu adnoddau digonol ar gyfer y gwaith hwn.

Mae drafftio Mesur 2011 wedi creu rhywfaint o ddryswch ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau ehangach y Comisiynydd. Byddai wedi bod yn gwbl bosibl i'r Comisiynydd, gydag adnoddau digonol, gyflawni llawer o'r gweithgareddau hybu yr oedd rhai yn disgwyl iddo ef neu hi eu cyflawni. Ac er bod y Comisiynydd wedi gwneud rhywfaint o waith clodwiw i hybu'r iaith yn y trydydd sector a chyda busnesau bach, er enghraifft, mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cyfyngu gan gyllideb y Comisiynydd.

Mae'r Mesur, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd a fyddai'n caniatáu ehangu rôl y Comisiynydd heb yr angen i ddeddfu o'r newydd. Gellid trosglwyddo'r swyddogaethau hybu ehangach sy'n rhan o Lywodraeth Cymru a'i chyrrff partner ar hyn o bryd i'r Comisiynydd. Clywsom dystiolaeth am fanteision ac anfanteision posibl ehangu rôl y Comisiynydd fel hyn, fodd bynnag. Un mater o'r fath oedd y gwrthdaro posibl rhwng y canghennau rheoleiddio a hybu mewn perthynas ag adnoddau. Nododd y Comisiynydd yn ei thystiolaeth ei bod yn credu "nad yw rheoleiddio a hybu o fewn corff yn wrthdaro; mae'n ddwy ochr o'r un geiniog".

Os yw Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn cytuno i drosglwyddo rhai swyddogaethau hybu, rhaid gwneud hyn mewn modd agored a thryloyw. Fel Pwyllgor, byddem yn disgwyl gweld gwahaniaeth clir rhwng rolau a chyfrifoldebau, yn ogystal ag adnoddau digonol.

Er ein bod yn cydymdeimlo â'r farn a fynegwyd gan rai am yr angen i greu asiantaeth hyd braich i hybu'r iaith, ni wnaeth y dystiolaeth ein darbwylllo y byddai sefydlu asiantaeth newydd ar hyn o bryd yn ddefnydd da o arian cyhoeddus. Gall trydedd asiantaeth hefyd arwain at ddryswch pellach ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch rolau a chyfrifoldebau, ac o ran pwy sy'n atebol.

Fel Pwyllgor, byddem yn cefnogi ehangu statws Uned Iaith Gymraeg y Llywodraeth. Byddai gan yr Uned estynedig rôl strategol ehangach ar draws adrannau'r Llywodraeth, gan sicrhau bod holl bolisiau'r Llywodraeth yn gyson ac yn creu'r amodau i gefnogi nodau Cymraeg 2050. Byddai gan yr Uned estynedig

fwy o oruchwyliaeth dros bolisiâu a gweithgarwch y llywodraeth yn ymwneud ag addysg, cynllunio, datblygu economaidd a datblygu gwledig er enghraifft.

Yn y pen draw, yn ein barn ni, nid pwys' n gyfrifol am weithgaredd hybu yw'r prif ffactor yma, ond pa mor effeithiol y gwneir y gweithgaredd hwnnw. P'un a oes rhaglen a chynllun gweithredu cadarn er mwyn rhoi'r gweithgareddau hybu ar waith er enghraifft, ac a oes digon o adnoddau ar gael, yn adnoddau ariannol ac o ran capasiti staff, ar gyfer y gweithgareddau hynny.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru wahaniaethu'n glir rhwng ei rolau a'i chyfrifoldeb hi a rolau a chyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg, a dylid cyfathrebu hynny'n glir i randdeiliaid a'r cyhoedd.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella statws a rôl Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'i chyfrifoldebau presennol, byddai'r Uned yn gyfrifol am ddwyn ynghyd arbenigedd allanol a fyddai'n rhoi trosolwg strategol o gynllunio ieithyddol yn genedlaethol. Dylai fod gan yr Uned hefyd rôl draws-lywodraethol ehangach, gan sicrhau bod trefniadau mewnol ar gyfer gweithredu'r strategaeth Gymraeg 2050 yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ar draws adrannau'r llywodraeth.

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau hybu a wneir gan y Llywodraeth, y Comisiynydd neu asiantaethau allanol os yw am lwyddo yn ei nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

6. Y cyd-destun rhyngwladol

91. Fel rhan o'i ymchwiliad, cymerodd y Pwyllgor rywfaint o dystiolaeth ar gymariaethau a safbwyntiau rhyngwladol. Clywodd y Pwyllgor sut mae Cymru yn esiampl rhyngwladol o ran cynllunio ieithyddol a deddfwriaeth iaith. Nododd Dr Elin Royles er enghraifft, fod Cymru yn "arwain yn rhyngwladol" o ran polisi iaith:

"rydw i'n meddwl bod gwir angen osgoi symud yn rhy fyrbwyll, efallai, i ddiwygio sylweddol, achos, hefyd, mae'r byd yn ein gwyllo ni. Rydym ni yn arwain yn rhyngwladol; rydym ni'n gofyn am esiamplau rhyngwladol inni ddysgu oddi wrthyn nhw, ond rydym ni'n arwain yn rhyngwladol yng Nghymru. Nid ydym ni'n cydnabod ein hunain yn ddigon aml."

92. Nododd y Comisiynydd hefyd yn ei thystiolaeth ein bod yn rhy aml yn methu â chydabod ein llwyddiannau fel enghraifft rhyngwladol o arfer da:

"Mae lwerddon yn edrych arnom ni ar hyn o bryd fel yr esiampl o ddeddfwriaeth y buasen nhw yn dymuno ei fabwysiadu. Mae ganddyn nhw strwythur o gynlluniau iaith y buasen nhw, rydw i'n credu, yn dweud sydd ddim yn gweithio o gwbl... So, rŷm ni'n gallu dysgu, ond nid wyf i'n credu ein bod ni'n wastod yn sylweddoli ein bod ni'n cael ein gweld fel esiampl o arfer dda yn rhyngwladol o ran deddfwriaeth ar hyn o bryd."

93. Serch hynny, yn ddiau, gellid dysgu llawer o brofiadau rhanbarthau eraill sydd ag iaith leiafrifol gynhenid. Gwnaed cymariaethau â rhanbarthau yn Sbaen, yn enwedig Catalonia a Gwlad y Basg, ar sawl achlysur. Nodwyd Gwlad y Basg fel enghraifft o ddiddordeb penodol. Er bod gan Wlad y Basg hanes a diwylliant gwahanol iawn, mae yno lawer sy'n debyg i Gymru. Mae maint ei phoblogaeth yn gymharol debyg, mae'r ddemograffeg yn debyg gyda'r iaith ar ei chryfaf mewn ardaloedd gwledig ac ymhlith pobl hŷn. Fel rhan o'i ymchwiliad, ymwelodd y Pwyllgor â Bilbao a Vitoria-Gasteiz yng Ngwlad y Basg er mwyn dysgu mwy am gynllunio ieithyddol a pholisïau i annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn y rhan hon o Sbaen.

94. Mae Llywodraeth Gwlad y Basg wedi rhoi cryn bwyslais ar ddiwygio addysg, gan wneud ymdrech fawr dros sawl degawd i gynyddu'r nifer sy'n siarad y Fasgeg. Yn y cyd-destun hwn, soniodd rhai tystion am eu hawydd i weld hawl statudol i addysg Gymraeg, a fyddai'n gofyn am gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg. Er bod y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn faes diddorol i'w ystyried, roedd y cynnig y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn.

95. Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu bod gan Gymru lawer i'w ddysgu o wledydd a rhanbarthau eraill, gan nodi yn ei thystiolaeth:

“Byddwn i'n cytuno bod yna lawer gyda ni i ddysgu... Rydym ni'n aml yn edrych ar Gatalonia a Gwlad y Basg fel llefydd lle rydym ni'n edrych. Rydym ni'n gweld ein bod ni eisiau mynd i gyfeiriad tebyg. Er, wrth gwrs, mae ganddyn nhw hawliau cryfach na ni, a dyna pam yr ydym ni'n edrych arnyn nhw.”

96. Fodd bynnag, mae ymchwil gymharol mewn perthynas ag ieithoedd lleiafrifol yn bodoli, a nododd Dr Huw Lewis fod bwlch yn eu hymchwil eu hunain yn y maes hwn:

“Rydw i'n credu lle rydych chi'n mynd gyda'r cwestiwn, ac un bwlch yn ein gwaith ymchwil ni, ond hefyd yn gyffredinol, o ran maes ymchwil polisi iaith yn rhyngwladol, yw cymariaethau systematig o fodelau llywodraethiant, os liciwch chi, mewn perthynas ag ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol fel y Gymraeg. Pe bawn i'n siarad â fy nghydweithwyr sy'n gweithio yn y maes, un o'r beirniadaethau yw bod yna duedd i chi gael astudiaethau sy'n edrych yn fanwl iawn ar achosion unigol, ond falle ddim lot o gymharu, ac mae hynny'n wendid yn y maes. Byddem ni'n hoffi medru mynd i edrych ymhellach arno yn y dyfodol. So, nid yw ein hymchwil ni, hyd yn hyn, wedi gallu gwneud y cymharu rhyngwladol yna o ran cymharu modelau, er enghraifft, lle mae gennych chi gomisiynydd a llywodraeth neu fodelau lle mae gennych chi un asiantaeth allanol. Mae e'n wendid o ran y maes yn gyffredinol ar hyn o bryd.”

97. Er ei bod yn werthfawr cymharu a dysgu o brofiadau gwledydd a rhanbarthau eraill, nid oes un ateb sy'n addas i bawb, a nododd y cyn Weinidog Treftadaeth fod cynllunio ieithyddol yn “broses tymor hir”:

“nid ydy pethau'n berffaith yng Ngwlad y Basg; peidiwch â meddwl bod yna atebion hawdd yn hyn o beth. Mae grym y diwylliant Eingl-Americanaidd yn aruthrol... Ac yng Ngwlad y Basg, Sbaeneg ydy o, ac mae Sbaeneg yn iaith ryngwladol, bwerus iawn, iawn. Ac, felly, nid ydy o'n hawdd trosi'r siaradwyr newydd yna i ddefnyddio'r Fasgeg hyd yn oed. Felly, mae hon yn broses tymor hir, mae'n fenter aruthrol, gyffrous iawn, iawn, iawn, a fel yna y dylem ni edrych arni. Yn bendant, dylech chi edrych ar Wlad y Basg, ond hefyd lle mae yna arfer da mewn llefydd eraill i weld beth sydd yn bosib i'w wneud.”

Ein barn ni

Yn ein barn ni, mae angen i Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Comisiynydd a rhanddeiliaid eraill, ddod â chynllunwyr iaith ac arbenigwyr yn y maes ynghyd. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol eisoes i sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, a allai ddarparu'r fforwm sydd ei angen i ddatblygu polisiau ar gyfer ystod eang o faterion mewn perthynas â'r iaith.

Mae'r camau a gymerwyd yng Ngwlad y Basg i gynyddu nifer y siaradwyr, ac i hybu defnyddio'r iaith, wedi bod yn sylweddol wahanol i Gymru. Mae Llywodraeth Gwlad y Basg wedi buddsoddi'n sylweddol mewn dulliau trochi ar gyfer y Fasgeg, gan symud ysgolion yn gyflym ar hyd y continwwm iaith. Mae hefyd wedi buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddi athrawon yn y Fasgeg, gan gynnwys cyfnodau sabothol dwys i athrawon ddysgu'r iaith.

Mae lle i ddysgu o ranbarthau eraill megis Gwlad y Basg, yn enwedig sut y mae Llywodraeth Gwlad y Basg wedi ceisio cynnwys ei holl bobl a'i chymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid defnyddio strategaethau o'r fath yng Nghymru, yn enwedig o ran categorio iaith ysgol a symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil yn y byd academiaidd i nodi bylchau mewn gwybodaeth, a datblygu rhaglenni ymchwil i gefnogi'r Strategaeth Cymraeg 2050.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar fyrder sut y gall ddatblygu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i ddarparu'r arbenigedd sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a chynllunio ieithyddol yng Nghymru.

Atodiad A

Crynodeb o'r Mesur

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a sefydlodd rôl Comisiynydd y Gymraeg. Cafodd y Mesur ei basio mewn Cyfarfod Llawn ar 7 Rhagfyr 2010, a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 9 Chwefror 2011.

Rhan 1

Mae'r rhan hon yn darparu ar gyfer statws swyddogol Gymraeg.

Rhan 2

Mae'r rhan hon yn sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ei rolau a'i swyddogaethau, a materion yn ymwneud â staffio, gweithdrefnau cwyno, cynnal ymchwiliadau, gweithdrefnau cyfreithiol a gofynion i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ac adroddiad 5 mlynedd. Prif nod y Comisiynydd, yn ôl Adran 3 o'r Mesur, yw "hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg".

Rhan 3

Mae'r rhan hon yn ymwneud â sefydlu Panel Cyngori ac ymgynghori â'r Panel.

Rhan 4

Mae Rhan 4 yn cynnwys un o'r agweddau allweddol ar waith y Comisiynydd. Mae darpariaethau ynghylch dyletswyddau i gydymffurfio â safonau, y safonau eu hunain a'u manylebau, a darpariaethau o ran yr unigolion sy'n ddarostyngedig i safonau i'w gweld yn y rhan hon o'r Mesur. Ceir darpariaethau yn Rhan 4 hefyd ar gyfer ymchwiliadau safonau, sef y broses gychwynnol ar gyfer penderfynu a ddylai unigolion orfod cydymffurfio â safonau, a hefyd ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio, sy'n nodi pa safonau y mae'n rhaid i'r unigolion a enwir gydymffurfio â hwy.

Mae Atodlen 8 yn darparu rhestr o unigolion eraill y gellid gofyn iddynt gydymffurfio â'r safonau. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwyr nwy a thrydan, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau trenau a bysiau, a Swyddfa'r Post, ymhlith eraill.

Rhan 5

Yn ei hanfod, hanner arall y broses safonau yw Rhan 5. Yn y rhan hon o'r Mesur, mae darpariaethau sy'n rhoi pwerau gorfodi i'r Comisiynydd. Gall y Comisiynydd ymchwilio i achosion o fethu â chydymffurfio â safonau, a hefyd ddarparu mesurau cosbol megis cosb sifil. Mae'r rhan hon o'r Mesur hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses apelio a chytundeb setlo.

Rhan 6

Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion o ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Rhan 7

Mae'r rhan hon yn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ynghyd â rheolau a gweithdrefnau sy'n berthnasol iddo.

Rhan 8

Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag uniondeb, difenwi a chyfyngiadau.

Rhan 9

Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn trosglwyddo'r swyddogaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 1993 (cynlluniau iaith Gymraeg) i'r Comisiynydd.

Rhan 10

Mae'r rhan hon yn diwygio adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu ar sut y byddant yn gweithredu eu Strategaeth Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Rhan 11

Mae Rhan 11 yn cynnwys darpariaethau atodol, gan gynnwys rhestr o gyrff cyhoeddus y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Atodiad B

Mae'r papur hwn yn cofnodi'r prif faterion a'r pethau a ddysgwyd yn ystod ymweliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu â Gwlad y Basg rhwng 27 a 29 Mawrth 2019.

1. EiTb - Darlledwr Teledu a Radio

- Ddydd Iau 28 Mawrth, fe wnaeth Aelodau ymweld ag EiTb (Euskal Irrati Telebista), sef y darlledwr a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer teledu a radio Basgeg a Sbaeneg yng Ngwlad y Basg. Roedd yr ymweliad yn gyfle i Aelodau'r Pwyllgor weld y prif swyddfeydd a'r cyfleusterau darlledu.
- Fe wnaeth y Pwyllgor gwrdd â Maite Iturbe, Cyfarwyddwr Cyffredinol EiTb, ac Odile Kruzeta, Cyfarwyddwr Radio a Chydlynu Golygyddol. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol amlinellu cefndir y sefydliad a'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.

2. Cyllideb a chynnwys

- Mae cyllideb EiTb ar gyfer 2019 oddeutu €143 miliwn. Mae Llywodraeth Gwlad y Basg yn darparu €130 miliwn o gyllid grant, ac mae tua 10 y cant (tua €13 miliwn) yn refeniw hysbysebu.
- Fodd bynnag, mae cyllideb y darlledwr wedi gostwng €45 miliwn dros y 10 mlynedd diwethaf (€175 miliwn yn 2009). Mae rheoli adnoddau yn heriol i'r darlledwr.
- Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar y cynnwys, sy'n rhaglenni cylchgrawn yn bennaf. Oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol, ychydig iawn o ddramâu y mae'r darlledwr yn eu cynhyrchu.
- Mae 60 y cant o gynnwys y darlledwr yn cael ei greu gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol.

3. Dyrannu'r gyllideb

- Mae tua €110 miliwn yn cael ei wario ar ddarlledu teledu, tua €25 miliwn ar radio, €3 miliwn ar y wefan a €5 miliwn ar weinyddu.
- Er mai EiTb yw'r prif ddarlledwr yn yr iaith Fasgeg, mae hefyd yn darlledu cynnwys Sbaeneg ar y teledu a'r radio.

4. Atebolrwydd

- Mae bwrdd y darlledwr yn cynnwys 19 aelod. Mae 15 o aelodau'r bwrdd yn wleidyddion o'r pum prif blaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn Senedd Gwlad y Basg.
- Mae'r darlledwr yn adrodd yn fisol i Senedd Gwlad y Basg ar faint o sylw y mae pob plaid wleidyddol a sefydliad yn ei dderbyn ar y gwahanol lwyfannau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol na dderbyniwyd unrhyw gwynion am gydbwysedd gwleidyddol gan y pleidiau gwleidyddol erioed.
- Mae'r holl gynnwys ar gael i'r academi iaith at ddibenion addysgu, ond nid yw'r darlledwr yn gwneud unrhyw gynnwys yn benodol ar gyfer dysgu'r iaith.
- Mae eu sianel newyddion yn defnyddio'r iaith Fasgeg safonol, ond mae'r holl gynnwys arall yn ceisio adlewyrchu pob tafodiaith.
- Penodir y Cyfarwyddwr Cyffredinol gan Senedd Gwlad y Basg. Nid oes cyfnod penodol.

5. Canolfan Addysg CEIP – Ysgol Gynradd Siete Campas Zorrozgoiti

- Yn dilyn yr ymweliad ag EiTB, fe wnaeth yr Aelodau ymweld ag ysgol drochi Basgeg mewn ardal o Bilbao o'r enw Zorrotza. Mae'n ardal Sbaeneg ei hiaith gyda lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol, ac mae hefyd yn gartref i lawer o bobl sydd wedi mewnfudo i Bilbao.
- Aeth yr Aelodau i weld dosbarth meithrin, lle roedd y plant wedi gwneud cyflwyniad PowerPoint a phoster wedi'i lamineiddio gyda dihareb Basgeg, a oedd hefyd wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg: "Nid yw iaith yn marw oherwydd nad yw'r rhai sydd ddim yn ei wybod ddim yn ei ddysgu, ond oherwydd bod y sawl sydd yn gallu ei siarad ddim yn gwneud hynny".
- Yna aeth yr Aelodau i ystafell ddosbarth cynradd i weld sut roedd y plant yn dysgu yn yr iaith Fasgeg.
- Fe wnaeth yr Aelodau hefyd fynychu cyfarfod yn neuadd yr ysgol gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Gwlad Basg, arolygydd yr ysgol, ymgynghorwyr ysgolion, sefydliadau cymunedol a chynrychiolwyr o deuluoedd. Maent i gyd yn rhan o brosiect penodol yn yr ardal.

6. Prosiect Cymunedol Zorrotza 2017-2022

- Mae Prosiect Cymunedol Zorrotza 2017-2022 yn unigryw i Wlad y Basg, ac mae'n dod â dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd at ei gilydd i drochi plant yn yr iaith Fasgeg a gwerthoedd Gwlad y Basg. Mae asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r prosiect, yn ogystal â'r rhai a enwir ym mharagraff 2.4, yn cynnwys cyngor y ddinas a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Daw holl blant yr ysgol o gartrefi lle nad yw'r naill riant na'r llall yn siarad yr iaith Fasgeg.
- Bwriad y prosiect yw gwella'r ysgol a'r lleoliad addysgol trwy fod yn arloesol a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ar y cyd â phrosiectau datblygu cymunedol.
- Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn dilyn yr un model addysgu, a'r un amserlen, sy'n gwella'r cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r dulliau addysgu wedi'u llunio i ysgogi diddordeb y plant.
- Mae'r ysgolion yn dilyn cwricwlwm Llywodraeth y Basg (Heziberri 2020), ac yn canolbwyntio ar ddysgu sy'n seiliedig ar dasgau.
- Rhoddir pwyslais mawr ar y cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r ysgolion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau ar y penwythnos sy'n rhoi cyfleoedd i'r plant siarad Basgeg.
- Mae grwpiau cymunedol yn yr ardal yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau, fel digwyddiadau chwaraeon, cerddoriaeth a dawns. Mae rhai o'r grwpiau cymunedol wedi bod yn gweithio yn yr ardal ers 30 mlynedd.
- Clywodd y Pwyllgor fod teuluoedd yn mynnu addysg yn yr iaith Fasgeg i'w plant, ar ôl iddynt gael eu hamddifadu o'r cyfle i'w dysgu eu hunain o dan unbennaeth Franco.
- Yn dilyn yr ymweliad â'r ysgol, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i gyfarfod dros ginio gyda María Ángeles Elorza, Ysgrifennydd Cyffredinol Materion Allanol Llywodraeth Gwlad y Basg, a Mikel Anton, Cyfarwyddwr Materion Ewropeaidd Llywodraeth Gwlad y Basg.

7. Academi Frenhinol yr Iaith Fasgeg

- Fe wnaeth yr Aelodau ymweld ag Academi Frenhinol yr Iaith Fasgeg yn Bilbao, a chwrdd ag Erramun Osa, yr is-ysgrifennydd. Soniodd am hanes yr Academi a rhoddodd daith i'r Aelodau o amgylch yr adeilad, sy'n cynnwys llenyddiaeth, arteffactau a mapiau o bwys hanesyddol.
- Academi Frenhinol yr Iaith Fasgeg yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am yr iaith, ac mae'n gyfrifol am gynnal gwaith ymchwil a safoni'r iaith.
- Cyflwynodd yr is-ysgrifennydd gopi o *Linguae Vasconum Primitiae* (Ffrwythau cyntaf yr iaith Fasgeg) i Gadeirydd y Pwyllgor. Cyhoeddwyd y copi cyntaf yn 1545, ac mae'n enghraifft gynnar o'r iaith mewn print. Mae'n cynnwys barddoniaeth am fywyd bob dydd a dysgeidiaeth o'r Beibl.

8. Llywodraeth Gwlad y Basg

- Ar ddiwrnod olaf yr ymweliad, fe wnaeth yr Aelodau ymweld â Vitoria-Gasteiz, Prifddinas Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg a'r ddinas lle mae pencadlys y Llywodraeth wedi'i leoli. Yma, fe wnaeth Aelodau gyfarfod â Miren Dobaran, Is-Weinidog Polisi Ieithyddol, ac Eugenio Jimenez, Cyfarwyddwr Canolfannau a Chynllunio.
- Clywodd yr Aelodau bod tua 40 o ysgolion trochi Basgeg wedi agor ar ôl diwedd unbennaeth Franco. Yn yr ysgolion hyn, roedd y plant yn dod yn bennaf o'r teuluoedd hynny a barhaodd i siarad yr iaith Fasgeg yn y cartref yn ystod cyfnod Franco, er bod yr iaith wedi'i gwahardd.
- Clywodd yr Aelodau bod ysgolion cudd o'r enw Ikastola yn bodoli yn ystod unbennaeth Franco, a bod y rhain wedi helpu i gadw'r iaith yn fyw yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae darparu addysg yn yr iaith Fasgeg wedi bod yn hanfodol i oroesiad yr iaith, ac mae wedi profi mai dyma'r elfen fwyaf llwyddiannus o'r gwaith o gynllunio iaith. Bu'n llwyddiannus o ran maint y gweithgaredd a nifer y cyfranogwyr. Mae hefyd wedi cael symiau sylweddol o gyllid gan y Llywodraeth dros y tri degawd diwethaf.
- Mae yna gynllun economaidd-gymdeithasol hirdymor i gynyddu'r defnydd o'r Fasgeg yn y sector preifat, a hefyd i ddatblygu cynnyrch digidol yn yr iaith.

- Mae'r gallu i siarad Basgeg yn hanfodol i bawb sy'n gweithio i'r Llywodraeth.

9. Buddsoddi

- Yn y cyfnod cynnar o fuddsoddi, y flaenoriaeth oedd buddsoddi mewn addysg feithrin ac addysg gynradd.
- Bu'r buddsoddiad mwyaf sylweddol mewn rhaglenni hyfforddi athrawon, lle mae athrawon nad ydynt yn gallu siarad Basgeg, neu sydd angen gwella sgiliau, yn cael cyfnod o ddwy i dair blynedd i fynychu rhaglen sabothol. Roedd angen buddsoddiad sylweddol ar y cynllun, gan fod angen iddo dalu cyflog yr athro a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen, yn ogystal â chyflog yr athrawon cyflenwi.
- Yn ôl data ar wariant Llywodraeth y Gwlad y Basg, yn 2018 cafodd ychydig dros **€2.5 biliwn ei ddyrannu i'r sector addysg**, wedi'i ddsbarthu drwy gynghorau'r taleithiau.
- Clywodd yr Aelodau am y buddsoddiad mewn gwersi oedolion yn yr iaith Fasgeg, gyda Llywodraeth Gwlad y Basg yn gwario tua €35 miliwn y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae yna 101 o ganolfannau ar draws Gwlad y Basg, gyda thua 35,000 o bobl yn cymryd rhan mewn gwersi ar hyn o bryd. Mae gwersi yn rhad ac am ddim i bob oedolyn.

10. Modelau Addysg

- Mae yna dri model ar gyfer addysg sector cyhoeddus yng Ngwlad y Basg - Model A, B a D (Fe wnaethon nhw gael gwared ar fodel C yn gynnar yn y broses. Yn ôl Nicholas Gardner mewn Papur a gyflwynwyd i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad yn 2002, gwnaed hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd rhesymau trefniadol.)
 - **Model A:** pob pwnc yn cael ei addysgu yn Sbaeneg, heblaw Basgeg;
 - **Model B:** Sbaeneg a Basgeg yn gyfrwng addysgu. Yn gyffredinol, caiff mathemateg, darllen ac ysgrifennu eu haddysgu yn Sbaeneg.
 - **Model D:** pob pwnc heblaw Sbaeneg yn cael ei addysgu yn yr iaith Fasgeg
- Mae wedi bod yn bolisi gan y Llywodraeth ers blynyddoedd lawer i symud ysgolion yn raddol o Fodel A i Fodel B, ac yn y pen draw i Fodel D.

- Fodd bynnag, clywodd yr Aelodau fod yn rhaid i bolisi o'r fath gynnwys teuluoedd a'r gymuned gyfan er mwyn llwyddo. Nid yw dull o'r brig i lawr yn gweithio yn ôl Llywodraeth Gwlad y Basg.
- O blith y grwpiau ysgol yng Ngwlad y Basg (cyfanswm o 479), mae 440 yn dewis Model D (92%), mae 24 o grwpiau ysgol yn dewis Model B, a 15 yn dewis Model A.
- Gwnaed ymdrech sylweddol hefyd i sicrhau y gall myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Ngwlad y Basg ddewis astudio mewn Basgeg, yn ddwyieithog neu yn Sbaeneg. Fodd bynnag, mae addysg alwedigaethol mewn Basgeg yn dal i fod yn faes sydd angen buddsoddiad a datblygiad.

11. Senedd Gwlad y Basg

- Cyn gadael Gwlad y Basg, fe wnaeth yr Aelodau ymweld â Senedd Gwlad y Basg. Yma, cawsant eu cyfarch gan Bakartxo Tejeria, Llywydd Senedd y Basg, ac Aelodau eraill o'r Senedd.
- Llofnododd holl Aelodau'r Pwyllgor y llyfr anrhydedd i nodi eu hymweliad â'r Senedd. Cyflwynodd y Llywydd gerfiad pren o goeden (sy'n symbolaidd i bobl Gwlad y Basg) i Gadeirydd y Pwyllgor i nodi ymweliad y Pwyllgor.
- Ar ôl y cyflwyniad, aeth yr Aelodau i ystafell bwyllgora, lle cynhaliwyd sesiwn ar y cyd ag Aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Chysylltiadau Allanol. Cafodd yr aelodau gyfle i rannu eu profiadau ar faterion yn ymwneud â pholisi iaith a meysydd cyffredin rhwng y ddwy wlad.

Yn ystod y cyfarfod, clywodd yr Aelodau y gwnaed ymdrech a buddsoddiad mawr i hyrwyddo'r iaith, ond mai'r cam nesaf oedd cynyddu defnydd o'r Fasgeg, a phrif ffrydio'r iaith ar draws holl gyrff y llywodraeth, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd.

Atodiad C

Cafodd y Pwyllgor ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau'r ymgynghoriad gan yr unigolion a sefydliadau a ganlyn. Mae'r ymatebion wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan: www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=315

Dyfodol i'r Iaith
Cyngor Tref y Barri
Coleg y Cymoedd
Comisiynydd y Gymraeg
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Cyngor Tref Caerfyrddin
Comisiynydd y Wyddeleg
Colegau Cymru
Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Amgueddfa Cymru
Cyngor Celfyddydau
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgol Abertawe
Academi Hywel Teifi
Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol Canada
Mudiad Meithrin
Cyngor Tref Abergele
Gofal Cymdeithasol Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Tribiwnlys y Gymraeg
Dathlu'r Gymraeg
Conffederasiwn Gig Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
16 aelod o'r cyhoedd

Atodiad Ch

Yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, clywsom gan yr unigolion a sefydliadau a ganlyn. Cyhoeddwyd trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd hyn ar ein gwefan:

<http://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445>

Dyddiad	Enw a Sefydliad
20 Medi 2018	Alun Ffred Jones, Cyn-Weinidog dros Dreftadaeth Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg Dyfan Sion, Cyfarwyddwr Strategol, Comisiynydd y Gymraeg
10 Hydref 2018	Emyr Lewis, Blake Morgan Dr Huw Lewis, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth Dr Elin Royles, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth
24 Hydref 2018	Heini Gruffydd, Cadeirydd, Dyfodol i'r Iaith Osian Rhys, Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg Bethan Williams, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
8 Tachwedd 2018	Llinos Roberts, Colegau Cymru Lois Roberts, Coleg y Cymoedd Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Rebecca Williams, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe
28 Tachwedd 2018	David Blaney, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Celia Hunt, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Siân Tomos, Cyngor Celfyddydau Cymru

	Owen Watkin, Cadeirydd, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
10 Ionawr 2019	<p>Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr</p> <p>Mandy Collins, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p> <p>Sue Ball, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan</p> <p>Rónán Ó Domhnaill, Comisiynydd y Wyddeleg</p> <p>Professor Robert Dunbar, Cadeirydd, Ieithoedd, Llenyddiaeth, Hanes a Hynafiaethau Celtaidd, Prifysgol Caeredin</p> <p>Diarmait Mac Giolla Christ, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd</p>
16 Ionawr 2019	<p>Gwyneth Ayers, Rheolwr Partneriaeth a Pholisi Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin</p> <p>Lyndon Puddy, Pennaeth Uned Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen</p> <p>Sioned Wyn Davies, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</p>
13 Chwefror 2019	<p>Eluned Morgan AM, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol</p> <p>Bethan Webb, Llywodraeth Cymru</p>